



**LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU  
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES**

**CYFRIFON BLYNYDDOL 2021-22**

## Cynnwys

	Tudalen
Manylion Gweinyddol a Chyfeirio	1-2
Datganiad llywodraethu blynyddol (yn cynnwys strwythur a rheolwyr)	3-13
Amcanion a Gweithgareddau	14-15
Cyflawniad a Pherfformiad	16-18
Adolygiad Ariannol	19-21
Adroddiad Cynaliadwyedd	22
Polisiau yn ymwneud â staffio	23
Cynlluniau ar gyfer cyfnodau yn y dyfodol	24-26
Datganiad Cyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Llyfrgellydd	27
Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd	28-31
Datganiad Gweithgareddau Ariannol	32
Mantolen	33
Datganiad Llif Arian	34
Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol	35-57

## **Manylion Gweinyddol a Chyfeirio**

### **Bwrdd yr Ymddiriedolion (o 1 Ebrill 2021, ac ers diwedd y flwyddyn)**

#### **Penodwyd gan Lywodraeth Cymru:**

Meri Huws (Is-lywydd a Llywydd dros dro, wedi ymddiswyddo ar 9 Awst 2021) ^

Ashok Ahir (Llywydd dros dro, wedi'i benodi ar 13 Medi 2021; penodiad parhaol mewn grym o 1 Ebrill 2022) ^

Andrew Evans (Is-lywydd yn weithredol o 1 Ebrill 2022)

Michael Cavanagh

Quentin Howard +

Dr Carl Williams +

David Hay ^

Lydia Rumsey \*

Dr Janet Wademan \*

#### **Penodwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru:**

Lee Yale-Helms (Trysorydd) \* +

Eleri Twynog Humphries (hyd at 30 Mehefin 2021)^

Dr Gwenllian Lansdown Davies \*

Dr Anwen Jones

Dr Elin Royles \*

Susan Davies ^

Professor Elaine Treharne +

Peter Florence (o 1 Gorffennaf 2021 i 3 Awst 2021)

Hannah Lindsay (o 1 Chwefror 2022) ^

**\* Aelodau o'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd**

**+ Aelodau o'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau**

**^ Aelodau o'r Pwyllgor Perfformiad ac Ansawdd**

#### **Aelodau Allanol Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd:**

Rhian Evans

Huw Lloyd Jones (o fis Tachwedd 2021)

#### **Aelodau cyfetholedig o'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau:**

Hywel Tudor

Dr Ieuan Griffiths (o fis Tachwedd 2021)

**Aelodau o'r Tîm Gweithredol:****Prif Weithredwr a Llyfrgellydd, a Swyddog Cyfrifyddu**

Pedr ap Llwyd

**Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol**

David Michael

**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol a Chasgliadau**

Dr Owain Rh Roberts

**Prif Gynghorwyr:**

Bancwyr  
Cyfreithwyr

Banc National Westminster, Aberystwyth  
Geldards LLP, Caerdydd  
Humphreys Roberts & Bott, Aberystwyth  
Hugh James, Caerdydd  
Darwin Gray, Caerdydd

Archwilwyr Allanol  
Archwilwyr Mewnol

Archwilio Cymru, Caerdydd  
Gwasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth  
Cymru

Broceriaid Buddsoddi  
Cyngor Actiwaraid a Phensiwn

Investec Wealth and Investment, Llundain  
Willis Towers Watson, Caeredin

Rhif Elusen Gofrestredig  
Rhif TAW  
Cyfeiriad Cofrestredig

525775  
905194137  
Llyfrgell Genedlaethol Cymru  
Penglais  
Aberystwyth  
Ceredigion, SY23 3BU

Treth Gorfforaeth

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi'i heithrio  
rhag talu treth gorfforaeth o dan Adran 505 o  
Ddeddf Trethi Incwm a Chorfforaeth 1988

## Datganiad Llywodraethiant Blynyddol

### Cefndir Statudol

Sefydlwyd Llyfrgell Genedlaethol Cymru ('y Llyfrgell') drwy Siarter Frenhinol ar 19 Mawrth 1907. Dyfarnwyd Siarteri Atodol yn 1911 ac yn 1978, gyda mân ddiwygiadau cyfansoddiadol. Ar 19 Gorffennaf 2006, rhoddwyd Siarter Atodol newydd i'r Llyfrgell gan y Frenhines Elizabeth II. Newidiodd Siarter Atodol 2006 gyfansoddiad a llywodraethiant y Llyfrgell yn sylweddol a chydabod datganoli'r llywodraeth o San Steffan i Gymru. Yn y gorffennol roedd gan y Llyfrgell Lys o Lywodraethwyr a Chyngor, ond nawr mae gennym Fwrdd o Ymddiriedolion.

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru hefyd yn Elusen Gofrestredig ac yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Fe'i hariennir drwy gyfuniad o gymorth grant a ddyrennir gan Lywodraeth Cymru, ac incwm a geir trwy weithgareddau masnachol, codi arian a rhai am dâl. Mae llythyr cylch gorchwyl blynyddol y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb am y Llyfrgell yn gosod allan dyraniad ac amodau cymorth grant y Llyfrgell.

Mae natur ddeublyg y Llyfrgell fel sefydliad Siarter Frenhinol ac Elusen Gofrestredig, a hefyd Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn llywodraethu sut mae'n gweithredu ac yn cyflawni ei rôl a'i rhwymedigaethau, sy'n gofyn am gydbwysu cyflawni amcanion ei Siarter a'i statws elusennol, sy'n adlewyrchu ei ddiben sylfaenol, ac egwyddorion llywodraeth hyd braich. Nodau'r Llyfrgell yw "casglu, diogelu a rhoi mynediad at bob math a ffurf ar wybodaeth gofnodedig, yn enwedig mewn perthynas â Chymru a Chenedl y Cymry a phobloedd Celtaidd eraill, er budd y cyhoedd, gan gynnwys y rhai sy'n ymroi i ymchwil a dysg".

### Datganiad o gyfrifoldebau Bwrdd yr Ymddiriedolion a'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan ei Siarter Frenhinol ac adrannau 8(1) ac 8(2) o'i Statudau, mae'n ofynnol i'r Llyfrgell baratoi cyfrifon blynyddol, a pharatoi a chyhoeddi adroddiad ar faterion a sefyllfa'r Llyfrgell yn ystod y flwyddyn flaenorol gan gynnwys y cyfryw wybodaeth ag y bydd yr Ymddiriedolion yn penderfynu arno o bryd i'w gilydd.

Rhaid i'r Llyfrgell baratoi ei chyfrifon yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, Adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Oriolau 1992 a'r Datganiad o Arferion Cymeradwy Elusennau.

Mae'r Llyfrgell yn atebol i Lywodraeth Cymru am yr arian cyhoeddus y mae'n ei dderbyn trwy'r Cytundeb Fframwaith, trwy gyfarfodydd monitro rheolaidd gyda'i chorff noddi, trwy archwiliad blynyddol o gyfrifon y Llyfrgell gan Archwilio Cymru, sef archwilwyr statudol y Llyfrgell.

Y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd yw Swyddog Cyfrifyddu dynodedig Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae ei gyfrifoldeb fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'n atebol amdano, am gadw cofnodion cywir, am ddiogelu asedau'r Llyfrgell, ac am baratoi'r adroddiad a chyfrifon blynyddol, wedi'u nodi ym Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu a gyhoeddwyd gan y Trysorlys.

#### I. Sgôp Cyfrifoldeb

Mae gan y Swyddog Cyfrifyddu a'r Ymddiriedolion gyfrifoldeb ar y cyd am gynnal fframwaith llywodraethu cadarn a system o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawniad gweledigaeth, nodau ac amcanion y Llyfrgell, tra'n diogelu'r arian cyhoeddus a'r asedau y maent yn gyfrifol amdanynt, yn unol â'u cyfrifoldebau a neilltuwyd iddynt yn *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru (2016)*.

Amlinellir y cyfrifoldebau hyn hefyd yn y Ddogfen Fframwaith a ddrafftwyd gan Lywodraeth Cymru, sy'n rheoleiddio'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Llyfrgell, y derbyniwyd fersiwn ddiwygiedig ohoni gan Fwrdd yr Ymddiriedolion yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2022.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am arweinyddiaeth effeithiol, diffinio a datblygu cyfeiriad strategol, gosod amcanion heriol, hyrwyddo safonau uchel o gyllid cyhoeddus, sicrhau bod y Llyfrgell yn cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol ac effeithlon, a monitro perfformiad, i sicrhau bod y Llyfrgell yn cyflawni ei nodau, amcanion a thargedau perfformiad a chyflawni yn llawn yn erbyn cynlluniau a chyllidebau.

Y Llywydd yw'r prif gyfrwng rhwng y Bwrdd a'r Dirprwy Weinidog a rôl y Llywydd yw sicrhau bod aelodau eraill y Bwrdd yn cael gwybod yr ohebiaeth ddiweddaraf.

Mae'r Llywydd hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod polisiâu a chmau gweithredu'r Bwrdd yn cefnogi polisiâu strategol ehangach y Dirprwy Weinidog drwy *Raglen Lywodraethu* Llywodraeth Cymru.

## **2. Fframwaith a Rheoliadau Llywodraethiant Corfforaethol**

Mabwysiadwyd y *Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol* gan Fwrdd yr Ymddiriedolion ym mis Tachwedd 2017. Mae hwn wedi'i ddiwygio'n flynyddol, ac yn 2021 roedd diwygiadau'n cynnwys Atodiad 1, *Dirprwy'r Bwrdd a Swyddogaethau Staff*, a Chylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer tri phwyllgor sefydlog y Bwrdd, a gymeradwywyd ac a fabwysiadwyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolion ym mis Tachwedd 2021.

Mae'r Fframwaith yn nodi cyfrifoldebau allweddol Bwrdd yr Ymddiriedolion a'r Bwrdd Gweithredol, ac mae hefyd yn ymgorffori Cod Ymddygiad yr Ymddiriedolion. Mae'r Rheoliadau yn pennu trafodion y Bwrdd a'i bwyllgorau.

## **3. Recriwtio a Phenodi Ymddiriedolion**

Mae Bwrdd y Llyfrgell yn cynnwys pymtheg o Ymddiriedolion, gydag wyth ohonynt yn cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru mewn ymgynghoriad â'r Ymddiriedolion, a saith gan y Llyfrgell yn unol â'r Rheoliadau. Mae'r Ymddiriedolion yn cynnwys tri Swyddog y Llyfrgell - Llywydd, Is-lywydd a Thrysorydd; penodir y Llywydd a'r Is-lywydd gan Lywodraeth Cymru, a phenodir y Thrysorydd gan y Llyfrgell. Gwneir pob penodiad yn unol â Statudau a Rheoliadau'r Llyfrgell ac egwyddorion dethol yn agored fel yr argymhellir gan Adolygiad Nolan.

Yn unol ag Adran 6 (v) o'i Siarter Frenhinol, mae gan y Llyfrgell yr awdurdod cyfreithiol i dalu Ymddiriedolion, ac yn 2020 penderfynodd yr Ymddiriedolion dalu'r Llywydd o 1 Ebrill 2021, ond nododd Meri Huws na fyddai derbyn tâl tra'n gwasanaethu fel Llywydd dros dro.

Ymddiswyddodd Meri Huws o'i swydd fel Llywydd dros dro, Is-lywydd ac Ymddiriedolwr ar 9 Awst 2021, a phenodd Llywodraeth Cymru Ashok Ahir yn Llywydd dros dro, yn weithredol o 13 Medi 2021. Derbyniodd y Llywydd interim dâl ar sail dau ddiwrnod o wasanaeth yr wythnos yn y rôl hon, am ffi o £337 y diwrnod, neu dâl blynyddol o £35,183. Nid yw'r Llywydd yn derbyn unrhyw bensiwn na buddion eraill. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgyrch recriwtio ar gyfer rôl Llywydd ac Is-lywydd ar ddiwedd 2021, a chynhaliwyd cyfweiliadau ym mis Chwefror 2022. Penodwyd Ashok Ahir i rôl y Llywydd, ac Andrew Evans i rôl yr Is-lywydd. Dechreuodd y ddau ar eu penodiadau ar 1 Ebrill 2022. O 1 Ebrill 2022, bydd rôl y Llywydd yn cael ei thalu ar sail un diwrnod o wasanaeth wythnosol yn y rôl ar y gyfradd a nodir uchod.

Penodwyd Peter Florence i Fwrdd yr Ymddiriedolion ar 1 Gorffennaf 2021, ond cyflwynodd ei ymddiswyddiad ar 3 Awst 2021. Yn dilyn cyfweiliadau ym mis Rhagfyr 2021, penodwyd Hannah Lindsay yn Ymddiriedolydd, ac yn dilyn cymeradwyaeth gan Fwrdd yr Ymddiriedolion, dechreuodd ar ei phenodiad ar 1 Chwefror 2022 am gyfnod o bedair blynedd.

Ni thalwyd unrhyw Ymddiriedolion eraill yn ystod y flwyddyn. Cedwir manylion buddiannau arwyddocaol yr Ymddiriedolion mewn cofrestr o fuddiannau a gedwir yn y Llyfrgell.

#### **4. Sefydlu a Hyfforddiant Ymddiriedolion**

Yn ystod y flwyddyn, croesawyd David Hay, Susan Davies, Lydia Rumsey, Elaine Treharne a Hannah Lindsay i'r Llyfrgell yn Ymddiriedolion newydd, a chawsant gipolwg ar feysydd gwaith allweddol y Llyfrgell.

Cyflwynwyd hyfforddiant llywodraethu ar-lein i Ymddiriedolion ac aelodau annibynnol a chyfetholedig o'r pwyllgor ym mis Mai 2021 gan Fflur Jones o Darwin Gray.

Ym mis Ionawr 2022, rhoddwyd cyflwyniad ar Becyn Cymorth Seiberddiogelwch y Bwrdd i Ymddiriedolion gan aelod o staff y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol, ac yn ystod 2022, bydd yr Ymddiriedolion yn archwilio hyn ymhellach, i sicrhau eu bod yn cael eu briffio'n llawn ar ystyriaethau seiberddiogelwch.

Cadwyd *Llawlyfr yr Ymddiriedolion* yn gyfredol, ond bydd yn destun adolygiad manwl yn ystod 2022.

#### **5. Bwrdd a Phwyllgorau – aelodaeth a chyfarfodydd**

Er bod pedwar cyfarfod cyntaf y flwyddyn wedi'u cynnal ar-lein, roedd cyfarfodydd mis Medi a Thachwedd yn rhai hybrid, gydag aelodau'n gallu mynychu yn yr adeilad yn Aberystwyth neu ar-lein. Oherwydd yr amrywiad Omicron oedd yn dod i'r amlwg, gwnaed penderfyniad ym mis Rhagfyr i gynnal cyfarfod Ionawr 2022 yn gyfan gwbl ar-lein i ddiogelu Ymddiriedolion a staff, a gwnaed penderfyniad tebyg mewn perthynas â chyfarfod mis Mawrth oherwydd y cynnydd sydyn mewn achosion Covid.

Darparwyd gwasanaeth cyfieithu llawn, ar y pryd, ar gyfer pob cyfarfod, gan sicrhau bod y Llyfrgell yn bodloni ei hymrwymiaadau o dan Safonau'r Gymraeg.

Dosbarthwyd holl bapurau'r Bwrdd a phwyllgorau i'r aelodau drwy wasanaeth Teams y Llyfrgell, a hefyd drwy borth penodol y Bwrdd hyd at fis Rhagfyr 2021. Daeth y defnydd o borth y Bwrdd i ben ym mis Rhagfyr 2021, yn dilyn digwyddiad diogelwch a beryglodd ddiogelwch y rhan hon o'r wefan. Adroddwyd ar y digwyddiad hwn i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, a derbyniodd y pwyllgor argymhelliad Pennaeth yr Isadeiledd Digidol y dylid rhoi'r gorau i ddefnyddio porth y Bwrdd.

Cynhaliwyd holl gyfarfodydd y Bwrdd a drefnwyd yn ystod 2021/2022, a fynychwyd hefyd gan gynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd, a'r ddau Gyfarwyddwr. Cyhoeddir agendâu a chofnodion y Bwrdd ar wefan y Llyfrgell, ynghyd â chrynodeb byr o'r papurau i'w cyflwyno ym mhob cyfarfod.

<https://www.llyfrgell.cymru/am-llgc/llywodraethiant/llywodraethiant-llgc>

Gellir gweld bywgraffiadau aelodau'r Bwrdd yma:

<https://www.llyfrgell.cymru/am-llgc/llywodraethiant/llywodraethiant-llgc/aelodau-r-bwrdd>

### 5.1 Strwythur Pwyllgorau

Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2021, cymeradwyodd y Bwrdd Gylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer ei dri phwyllgor sefydlog, a chymeradwyo eu hail-enwi i adlewyrchu cylch gorchwyl diwygiedig pob un yn fwy digonol. Daeth Archwilio a Risg yn Archwilio, Risg a Sicrwydd; Daeth Cynllunio Ariannol yn Gyllid ac Adnoddau, a daeth Llywodraethiant a Pherfformiad yn Berfformiad ac Ansawdd.

Pwyllgor	Cyfrifoldebau allweddol
<b>Archwilio, Risg a Sicrwydd</b>	Pwyllgor sefydlog sy'n cwmpasu holl anghenion sicrwydd Bwrdd yr Ymddiriedolion a'r Swyddog Cyfrifyddu yn eu cyfrifoldebau am faterion yn ymwneud â rheoli risg, rheolaethau mewnol, cyfrifon statudol, a llywodraethiant y Llyfrgell. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ymgysylltu â gwaith Archwilio Mewnol ac Allanol a materion adrodd ariannol.
<b>Cyllid ac Adnoddau</b>	pwyllgor sefydlog sy'n cwmpasu holl anghenion sicrwydd Bwrdd yr Ymddiriedolion o ran rheolaeth effeithiol ac effeithlon o arian ac adnoddau eraill gan y Llyfrgell, yn enwedig portffolio buddsoddi'r Llyfrgell a'r defnydd o'i chronfeydd preifat, ei gweithgareddau masnachol, a pherfformiad ei ymgyrchoedd codi arian.
<b>Perfformiad ac Ansawdd</b>	Pwyllgor sefydlog sy'n cwmpasu holl anghenion sicrwydd Bwrdd yr Ymddiriedolion ar gynnal safonau cyflawni, monitro, ac adolygu effeithiol ac effeithlon, datblygu'r gwasanaethau a ddarperir, sicrhau hygyrchedd ac ansawdd gwasanaeth i'r holl randdeiliaid, a sicrhau bod gofynion yr holl randdeiliaid yn cael eu bodloni'n deg.

Yn ogystal â'r pwyllgorau sefydlog, mae'r Bwrdd hefyd wedi sefydlu Panel Adeiladau sy'n rhoi sicrwydd ac yn gwneud argymhellion i Fwrdd yr Ymddiriedolion ar faterion yn ymwneud ag adeilad ac ystâd y Llyfrgell, ei chynnal, ei defnydd a'i datblygiad. Cadeirydd y Panel yw Mike Cavanagh, ac ymunodd Quentin Howard â'r Panel o fis Chwefror 2022.

Mae'r Ymddiriedolion a ganlyn yn gwasanaethu ar Fwrdd y Gronfa Bensynau – Lee Yale-Helms, Carl Williams, Anwen Jones ac Ashok Ahir (penodwyd ym mis Ionawr 2022).

Mae Quentin Howard a Lydia Rumsey yn gwasanaethu ar Fwrdd Prosiect yr Archif Ddarlledu i gynrychioli buddiannau'r Ymddiriedolion.

#### **Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd**

Yn ogystal ag Ymddiriedolion ac aelodau annibynnol, mae archwilwyr mewnol y Llyfrgell a chynrychiolwyr o Archwilio Cymru yn mynychu cyfarfodydd pwyllgor. Mae isadran nodd'i'r Llyfrgell yn cadw'r hawl i gynrychiolydd fynychu un cyfarfod y flwyddyn.

Talodd y pwyllgor ddiwydrwydd dyladwy i reoli risg yn y Llyfrgell, a threalodd weithdy risg ym mis Rhagfyr 2021, lle cyflwynodd penaethiaid adran y tair prif risg yn eu meysydd gwaith i aelodau'r pwyllgor. Arweiniodd yr ymarfer defnyddiol hwn at ddatblygu rhaglen o drafod eang, i edrych yn fanwl ar rai meysydd risg allweddol yn y Llyfrgell.



Roedd meysydd eraill o drafodaeth yn cynnwys camau gweithredu tendr sengl, diogelwch gwybodaeth, ac yn arbennig unrhyw achosion o dorri amodau, cyfrifon blynyddol statudol, ac unrhyw faterion neu risgiau a gododd o ganlyniad i'r pandemig.

Janet Wademan sy'n cadeirio'r Pwyllgor, a chyfarfu bedair gwaith yn ystod y flwyddyn.

### Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau

Canolbwyntiodd y pwyllgor ar adolygu a chraffu ar gynlluniau ariannol a chyllidebau'r Llyfrgell a'r goblygiadau i sefydlogrwydd ariannol y Llyfrgell. Gohiriwyd yr ymgynghoriad ar unrhyw newidiadau i gynllun pensiwn y Llyfrgell tan ddechrau 2022, pan fydd y pwyllgor yn ailedrych ar opsiynau posibl ar gyfer newidiadau i'r cynllun.

Ystyriwyd ceisiadau i ddefnyddio cronfeydd preifat wrth gefn, yn unol â Pholisi Cronfeydd Elusennol y Llyfrgell, a gwnaed argymhellion i Fwrdd yr Ymddiriedolion ynghylch cymeradwyo'r rhain.

Cynhaliwyd tri chyfarfod Pwyllgor yn ystod y flwyddyn, gyda'r cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 16 Ebrill 2021 wedi'i ganslo, a busnes yn cael ei gario ymlaen i'r cyfarfod dilynol. Cadeirydd y Pwyllgor yw'r Trysorydd, Lee Yale-Helms.

### Pwyllgor Perfformiad ac Ansawdd

Canolbwyntiodd y pwyllgor ar gynnydd ar weithredu argymhellion yr Adolygiad Teilwredig, cynnydd yn erbyn dangosyddion perfformiad a'r cynllun gweithredol, llywodraethiant y prosiect Archif Darlledu, derbyniodd yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, a thrafododd ddrafft o'r Ddogfen Fframwaith a baratowyd gan y corff noddi.

Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn ystod y flwyddyn, dan gadeiryddiaeth Meri Huws nes iddi ymddiswyddo. Daeth Ashok Ahir i'r Gadair ym mis Medi 2021.

### 5.2 Presenoldeb y Bwrdd a Phwyllgorau

	Bwrdd	Archwilio, Risg a Sicrwydd	Cyllid ac Adnoddau	Perfformiad ac Ansawdd
<b>Meri Huws</b>	2/2			2/2
<b>Ashok Ahir</b>	3/3			2/2
<b>Lee Yale-Helms</b>	6/6	4/4	3/3	
<b>Eleri Twynog Humphries</b>	1/1			1/2
<b>Mike Cavanagh</b>	4/6			
<b>Quentin Howard</b>	6/6		3/3	
<b>Carl Williams</b>	3/6		3/3	

<b>Gwenllian Lansdown Davies</b>	4/6	1/4	
<b>Anwen Jones</b>	5/6		
<b>Elin Royles</b>	6/6	4/4	
<b>David Hay</b>	6/6		4/4
<b>Lydia Rumsey</b>	6/6	4/4	
<b>Janet Wademan</b>	6/6	4/4	
<b>Susan Davies</b>	5/6		4/4
<b>Elaine Treharne</b>	5/6		3/3
<b>Peter Florence*</b>	1/1		
<b>Hannah* Lindsay</b>	1/1		

\* Mynychodd Hannah Lindsay a Peter Florence gyfarfod y Bwrdd ar 7 Mai 2021 fel sylwedyddion, a mynychodd Hannah hefyd gyfarfod y Bwrdd ar 28 Ionawr 2022 fel sylwedydd. Mynychodd Andrew Evans gyfarfod y Bwrdd ar 25 Mawrth 2022 fel sylwedydd.

### 5.3 Trosolwg o Berfformiad y Bwrdd

Fel llawer o sefydliadau eraill yng Nghymru, achosodd y pandemig byd-eang a orfododd y Llyfrgell i gau ei drysau ar 17 Mawrth 2020 heriau nad oedd y Llyfrgell erioed wedi dod ar eu traws o'r blaen. Er gwaethaf yr heriau hyn, parhaodd y Llyfrgell i wasanaethu ei chymunedau, er mewn ffurf wahanol, a gwelodd lansiad ein strategaeth bum mlynedd newydd ym mis Ebrill 2021, *Llyfrgell i Gymru a'r Byd*, ffocws cynyddol ar wasanaethau digidol o ganlyniad i'r pandemig. Bydd hyn yn ein galluogi i ymgysylltu â mwy o gymunedau mewn ffyrdd newydd a chyffrous.

Roedd y Bwrdd yn derbyn data perfformiad yn rheolaidd a oedd yn dangos cynnydd yn nifer y defnyddwyr newydd a ddefnyddiodd gasgliadau a gwasanaethau digidol y Llyfrgell yn ystod y flwyddyn, ac roedd y ffigur ar gyfer tri chwarter cyntaf 2021/22 10% yn fwy na thri chwarter cyntaf 2020/21.

Wrth i ni ddod allan o'r pandemig, a chroesawu ymwelwyr yn ôl i'r adeilad, mae'r Llyfrgell wedi ymrwmo i sicrhau ei bod yn parhau i wasanaethu pobl Cymru a thu hwnt, a sicrhau bod diwylliant yn hygyrch i bawb.

Roedd y Bwrdd wedi cymeradwyo cynllun strategol pum mlynedd y Llyfrgell ym mis Ionawr 2021, a lansiwyd hwn yn ffurfiol mewn digwyddiad ar-lein gan y Dirprwy Weinidog, Dawn Bowden, AS, ym mis Tachwedd 2021.

Cafodd argymhellion yr Adolygiad Teilwredig eu monitro'n barhaus, ac ym mis Ionawr 2022 cymeradwyodd y Bwrdd fod nifer o argymhellion yn cael eu rhoi i'r brif ffrwd i fod yn rhan o gynllun gweithredol y Llyfrgell at y dyfodol.

Bydd archwilwyr mewnol y Llyfrgell yn cynnal adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd a'r pwyllgorau yn ystod 2022, a fydd yn gweld cyflawni argymhelliad 16 o'r Adolygiad Teilwredig. Bydd gwerthusiadau perfformiad Ymddiriedolion unigol yn cael eu cynnal yn ystod 2022 nawr bod Llywydd parhaol wedi'i benodi.

Mae'r Bwrdd yn ymwybodol iawn o'i gyfrifoldebau o ran seiberddiogelwch a'r risgiau cynyddol yn y maes hwn. Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn derbyn adroddiadau manwl ar ddiwyddiadau ym mhob cyfarfod, a chaiff y rhain eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd lle bo angen. Fel rhan o'i raglen hyfforddi, cafodd yr Ymddiriedolion gyflwyniad gan aelod o staff yr NCSC ar Becyn Cymorth y Bwrdd ar gyfer Seiberddiogelwch, a bydd hyn yn cael ei archwilio ymhellach yn ystod 2022.

Mae'r Ymddiriedolion wedi ymrwymo i gefnogi cynlluniau uchelgeisiol y Llyfrgell i ddod yn gyfan gwbl garbon niwtral erbyn 2030, a chroesawyd y cynlluniau oedd gan y Llyfrgell yn eu lle i gyflawni hyn. Mae'r nifer uchel o staff sy'n gweithio gartref yn ystod y pandemig wedi cyfrannu at hyn trwy ddefnyddio llai o gerbydau, a gostyngiad yn y defnydd o bapur. Mae goleuadau ynni effeithlon bellach wedi'u gosod mewn tua 80% o'r adeilad, a'n nod yw cwblhau hyn erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2022/23. Mae pwyntiau gwefru cerbydau trydan yn cael eu gosod ar dir y Llyfrgell ar hyn o bryd

Bydd mesurau pellach yn cynnwys;

- cael gwared ar foeleri ac oeryddion sy'n llosgi nwy, a ffynonellau gwres sylfaenol di-garbon/sy'n allyrru carbon isel, wedi'u gosod ynghyd ag oeryddion gwres deuol i fodloni gofynion y systemau gwresogi ac oeri presennol.
- Gosod arae solar ar y ddaear, gyda'r potensial i gyfrannu tua 360,000kWhrs o drydan bob blwyddyn, a byddai'r cyfan yn cael ei ddefnyddio ar y safle.

Yn ogystal â'r uchod, bu'r Bwrdd hefyd yn ystyried y materion canlynol yn ystod y flwyddyn;

- Cymeradwyo Fframwaith Sicrwydd Bwrdd diwygiedig (TR 17)
- Rhaglen ailstrwythuro corfforaethol (TR21)
- Cymeradwyo cylch gorchwyl diwygiedig ar gyfer ei dri phwyllgor sefydlog
- Adroddiad allanol ar gynhyrchu incwm (TR 25)
- Dogfen Fframwaith wedi'i diwygio a'i diweddarau
- Diweddariadau cynnydd yr Archif Ddarlledu Genedlaethol
- Cyllideb 2021/22 a Chyllideb Ddrafft 2022/23
- Cymeradwyo cylch gwaith cyflog 2021/22
- Diweddariadau ar y rhaglen adeiladu cyfalaf
- Cofrestr risg corfforaethol
- Perfformiad buddsoddiadau
- Adroddiadau cynnydd yn erbyn targedau a osodwyd yn y cynllun gweithredol blynyddol
- Cofnodion y tri phwyllgor sefydlog a'r Panel Adeiladau

## 6. Archwilio Mewnol

Parhaodd y Llyfrgell i weithio'n agos gyda'i harchwilwyr mewnol, Gwasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru. Darperir yr archwiliad mewnol gan Wasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Cytunwyd ar raglen waith ar gyfer 2021/22 gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ar 30 Ebrill 2021, ac fe'i cymeradwywyd gan y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd.

Mae'r gwasanaeth archwilio mewnol yn adrodd yn annibynnol yn flynyddol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y Llyfrgell, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwelliant. Cyflwynir adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd er mwyn i aelodau adolygu a herio'r datganiadau sicrwydd a ddarperir gan y Pwyllgor Gwaith. Gall y Pennaeth Archwilio Mewnol roi sicrwydd rhesymol bod trefniadau i sicrhau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol, o fewn y meysydd hynny sy'n cael eu hadolygu, wedi'u cynllunio'n addas a'u gweithredu'n effeithiol. Mae rhai materion angen sylw rheolwyr wrth ddylunio rheolaeth neu gydymffurfio ag amlygiad risg cymedrol nes eu bod wedi eu datrys.

Cyflwynwyd yr archwiliadau canlynol i'r pwyllgor yn ystod 2021/22:

- Dilyniant Rheoli Cofnodion Corfforaethol (sicrwydd rhesymol)
- Caffael (sicrwydd cyfyngedig)
- Casgliadau Cyhoeddus (sicrwydd sylweddol)
- Iechyd, Diogelwch a Lles (sicrwydd rhesymol)

Cytunwyd ar gamau gweithredu gan reolwyr ar gyfer yr Archwiliad Caffael, a chânt eu rhoi ar waith yn gynnar yn 2022.

## 7. Côt Ymarfer Gorau ar Lywodraethu

Hyd y gŵyr Bwrdd yr Ymddiriedolion a'r Swyddog Cyfrifyddu, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Llyfrgell yn ymwybodol ohoni. Mae'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu hefyd wedi cymryd pob cam angenrheidiol neu ofynnol i wneud eu hunain yn ymwybodol o wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr y Llyfrgell yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Fel elusen gofrestredig, mae'r Llyfrgell wedi gweithredu yn unol â'r *Llywodraethu Da: Côt i'r Trydydd Sector yng Nghymru* a chanllawiau a chodau ymarfer y Comisiwn Elusennau, ac mae'r Bwrdd Ymddiriedolion wedi sicrhau, eto yn unol â'r côd ymarfer hwn, fod gan y Llyfrgell drefniadau llywodraethu cadarn ar waith i hyrwyddo perfformiad uchel a diogelu priodoldeb a rheoleidd-dra.

## 8. Rheoli Risg a Rheolaethau

Manylir ar system rheolaeth fewnol y Llyfrgell yn *Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd*, a gafodd ei adolygu a'i ddiweddarau yn 2021 i gynnwys lefelau uwch o graffu sy'n angenrheidiol oherwydd newidiadau mewn arferion gwaith yn ystod pandemig Covid-19. Mae hyn yn rhoi dull strwythuredig o sicrhau bod Bwrdd yr Ymddiriedolion yn cael y wybodaeth gywir, sy'n fanwl ac yn berthnasol, ar yr adeg gywir a chyda lefel briodol o sicrwydd wedi'i phriodoli i bob ffynhonnell ddata. Mae *Polisi Rheoli Risg y Llyfrgell* yn diffinio ymagwedd y Llyfrgell at risg a sut mae rheoli risg wedi'i wreiddio mewn prosesau rheoli i sicrhau bod y risgiau strategol allweddol yn cael eu rheoli'n effeithiol. Mae'r *Polisi Rheoli Risg* yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, a bydd fersiwn diwygiedig yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn ystod 2022.

Mae'r gofrestr risg gorfforaethol yn nodi, cofnodi, asesu a manylu ar y risgiau strategol a gweithredol allweddol sy'n ymwneud â gweithgareddau'r Llyfrgell. Cedwir y rhain dan adolygiad cyson gan y Tim Gweithredol ac unrhyw berchnogion risg penodedig eraill a chymerir camau fel y bo'n briodol i reoli a lliniaru'r risgiau hyn. Ategir y gofrestr risg gorfforaethol gan gofrestrau risg adrannol, sydd hefyd yn

cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y Tîm Gweithredol, a chaiff risgiau adrannol eu huwchgyfeirio i'r gofrestr gorfforaethol lle bo angen.

Y risgiau newydd a gynhwyswyd yn y gofrestr risg gorfforaethol yn ystod y flwyddyn oedd;

- Storio – Nid oes gan y llyfrgell ddigon o gapasiti i storio casgliadau'n briodol, neu gallai fod mewn perygl o redeg allan o gapasiti storio yn gyfan gwbl
- Cronfeydd wrth gefn preifat – mae balansau yn rhy uchel neu'n rhy isel

Yn dilyn cais aflwyddiannus i Lywodraeth Cymru am gyllid i adeiladu cyfleuster storio newydd, mae'r Llyfrgell yn ystyried ffyrdd y gall gwrdd â'r her o le storio annigonol a allai gynnwys dad-hygyrchu casgliadau, neu storio oddi ar y safle. Bydd y Llyfrgell yn parhau i gynnal trafodaethau gyda Lywodraeth Cymru ynghylch cael cyllid i adeiladu cyfleusterau storio pellach.

Yn yr amgylchedd ariannol cyfnewidiol presennol, mynegwyd pryder ynglŷn â lefelau arian preifat wrth gefn y Llyfrgell, a'r safbwynt i'w gymryd pe byddai'r rhain yn mynd y tu hwnt i'r trothwy uchaf, neu'n disgyn o dan y trothwy isaf. Mae'r risg hon yn cael ei rheoli'n ddigonol ac roedd yn destun trafodaeth ddofn yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ym mis Chwefror 2022. Mae'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau hefyd yn monitro ceisiadau i ddefnyddio'r cronfeydd preifat wrth gefn, ac yn adolygu'r Polisi Cronfeydd Preifat o bryd i'w gilydd.

Mae'r Bwrdd yn parhau i ganolbwyntio ar y risg o gydnerthedd rheolwyr, a fydd yn cael sylw gan y rhaglen ailstrwythuro corfforaethol, a bydd penodi trydedd swydd ar lefel Cyfarwyddwr a dau Bennaeth Adran newydd yn cryfhau capasiti a set sgiliau'r Tîm Gweithredol a'r Grŵp Cyflawni.

Parhaodd seiberddiogelwch a Covid-19 yn risgiau amlwg yn ystod y flwyddyn, a chawsant eu monitro a'u hastudio'n agos ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd. Darparwyd adroddiadau diweddar rheolaidd hefyd i'r Pwyllgor ar y ddau faes risg hyn.

Mae'r Llyfrgell yn parhau i fod yn ofalus yn ei dull o reoli risgiau o ran ei chyfrifoldebau fel corff a ariennir yn gyhoeddus, ac mewn meysydd megis cydymffurfio â deddfwriaeth neu amodau a osodir gan Lywodraeth Cymru, bydd yn ceisio cydymffurfio yn ddieithriad bob amser. Mae'r Llyfrgell yn wynebu heriau ariannol sylweddol ac mae methiant cymorth grant i wneud iawn am gostau rhedeg ychwanegol yn bryder mawr. Bydd hyn yn effeithio ar allu'r Llyfrgell i gynnig codiadau cyflog i staff, cwrdd â chynnydd sylweddol yng nghostau rhedeg eraill y Llyfrgell, ac ariannu costau pensiwn uwch. Ni wnaed unrhyw ddarpariaeth yn y Gyllideb Atodol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 1 Mawrth 2022 ar gyfer codiadau cyflog nac i gwrdd â chost uwch pensiynau.

Cwblhawyd holiaduron rheolaeth mewnol gan Benaethiaid Adrannau a Chyfarwyddwyr ar ddiwedd y flwyddyn yn cadarnhau bod elfennau allweddol o system rheolaeth fewnol y Llyfrgell yn eu lle yn ystod y flwyddyn ac wedi bod yn gweithio'n effeithiol o fewn eu maes cyfrifoldeb a oedd yn rhoi lefel ychwanegol o sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu ynghylch cadernid fframwaith rheoli'r Llyfrgell.

Mae gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth galon gweithgareddau'r Llyfrgell, ac mae hyn wedi'i wreiddio yn y strategaeth newydd Llyfrgell i Gymru a'r Byd. Mae'r fframwaith effaith yn dangos sut mae'r amcanion llesiant strategol yn cyfrannu at saith amcan llesiant y Ddeddf, tra bod y cynllun strategol yn nodi sut y mae'r Llyfrgell yn bwriadu cyflawni yn erbyn y nodau llesiant.

Ni chodwyd unrhyw faterion yn ystod y flwyddyn o dan y Polisi Chwythu'r Chwiban. Cafodd ein polisiau Chwythu'r Chwiban, Gwrth-dwyll a Gwrth-lygredd eu hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ym mis Hydref 2021.

Ymdriniwyd â chwynion yn unol â'n Polisi Cwynion. Ymchwiliwyd yn llawn i bob cwyn, a gweithredwyd unrhyw welliannau neu newidiadau dilynol i arferion gwaith lle'r oedd hynny'n briodol.

Dilynodd y Llyfrgell ddeddfwriaeth a chanllawiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag iechyd a diogelwch ei staff ac ymwelwyr yn ystod y pandemig Covid-19, a chwblhawyd asesiadau risg i sicrhau bod ein manau cyhoeddus yn ailagor yn ddiogel pan ganiateir gwneud hynny.

## 9. Diogelwch Gwybodaeth

Mae gan y Llyfrgell weithdrefnau a phrotocolau diogelwch gwybodaeth ar waith i sicrhau cyfrinachedd, cywirdeb ac argaeledd y wybodaeth yr ydym yn ei chadw a'i phrosesu, ac i sicrhau cydymffurfiaeth â GDPR y DU a'r Ddeddf Diogelu Data 2018. Mae'r rhain yn cynnwys;

- Polisi Diogelwch Gwybodaeth
- Polisi Defnydd Derbyniol
- Polisiâu mewnol ar ddiogelwch gwybodaeth – dileu data, cyfrifiadura symudol, cyfrinair, cyfryngau symudadwy

Oherwydd newidiadau mewn blaenoriaethau ac adnoddau a achoswyd gan y pandemig, a phroblemau parhaus o ran adnoddau staffio, bu oedi pellach wrth ail-ardystio ar gyfer achrediad Cyber Essentials / IASME. Mae'r Llyfrgell ar hyn o bryd yn gweithio tuag at ail-achrediad, a ddylai gael ei gyflawni yn 2022 ar ôl diweddarau rhai eitemau o'r isadeiledd. Mae pob digwyddiad diogelwch gwybodaeth yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd. Nid oedd unrhyw achosion o dorri diogelwch yn ystod y flwyddyn a oedd yn golygu bod angen adrodd arnynt i'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Derbyniodd y Llyfrgell ddeg cais Rhyddid Gwybodaeth, yn amrywio o ymholiadau yn ymwneud â chasgliadau i ymholiadau rheoli a chaffael. Atebwyd pob ymholiad o'r fath o fewn yr 20 diwrnod gwaith a ganiateir ar gyfer ymateb.

## 10. Y Dyfodol

Yn ystod 2022, bydd y Llyfrgell yn ymdrechu i gyflawni ei strategaeth mewn sefyllfa heriol barhaus, ond bydd yn parhau i drafod â Llywodraeth Cymru ar gyllid cymorth grant yn y dyfodol ac yn archwilio ffynonellau cyllid eraill i gefnogi cyflawniad ein nodau strategol. Wrth symud ymlaen, byddwn yn;

- Gweithredu gweddill argymhellion yr Adolygiad Teilwredig, a lle bo'n bosibl, prif ffrydio'r rhain yn ein cynllun gweithredol.
- Ystyried unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'r Cynllun Pensiwn presennol
- Gweithredu Fframwaith Polisi Casgliadau newydd
- Parhau i ddatblygu'r isadeiledd a'r systemau ar gyfer cytuniad a darparu mynediad i Gasgliad yr Archifau Darlledu Cenedlaethol.
- Datblygu manau cyhoeddus newydd fel rhan o'r Prosiect Archifau Darlledu Cenedlaethol mewn safleoedd y tu hwnt i Aberystwyth
- Datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2022 – 2026 o'r newydd
- Datblygu a gweithredu Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu newydd
- Datblygu a gweithredu Strategaeth Ryngwladol
- Datblygu a gweithredu Strategaeth Codi Arian/Cynhyrchu Incwm
- Datblygu cynllun strategol tymor hir ar gyfer cyfleusterau storio
- Cefnogi ffurfio'r Oriol Celf Gyfoes Genedlaethol
- Cytuno ar Femorandwm Cytundeb gydag Amgueddfa Cymru

Llofnodwyd ar ran y Bwrdd:



Pedr ap Llwyd  
Llyfrgellydd & Prif Weithredwr & Swyddog Cyfrifyddu  
22 Gorffennaf 2022



Lee Yale-Helms  
Trysorydd  
22 Gorffennaf 2022

## 2 AMCANION A GWEITHGAREDDAU

### 2.1 Prif amcanion

rif amcan y Llyfrgell, fel y'i mynegir yn Siarter Atodol 2006 yw:

- *casglu, cadw a rhoi mynediad i bob math a ffurf o wybodaeth gofnodedig, yn enwedig yn ymwneud â Chymru a'r Cymry a phobloedd Celtaidd eraill, er budd y cyhoedd, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag ymchwil a dysg.*

Y pwrpas a'r weledigaeth sylfaenol oedd sicrhau bod hanes, diwylliant a threftadaeth unigryw Cymru, sydd wedi'i gofnodi mewn amrywiol ffurfiau a chyfryngau dros y blynyddoedd, ar gael bob amser i alluogi pawb i gael gwell dealltwriaeth o bwy ydym ni, i egluro'r dreftadaeth hanesyddol a diwylliannol sydd wedi ein llunio fel cenedl dros y canrifoedd, ac i annog dysgu ac ymchwil. Mae dau ddimensiwn iddo - adeilad corfforol ysblennydd, yn Aberystwyth, yn gartref i'r casgliadau print, llawysgrif, gweledol a chlyweledol a hefyd llyfrgell ac archifau, yn ogystal â phresenoldeb digidol ar y rhyngwyd.

### 2.2 Budd Cyhoeddus

Mae ein gweledigaeth 'sicrhau newid er gwell i bawb yng Nghymru nawr ac yn y dyfodol', fel y nodir yn ein Cynllun Strategol newydd ar gyfer 2021-26, yn sicrhau bod budd cyhoeddus wrth wraidd ein holl weithgareddau. Wrth gyflawni eu dyletswyddau, mae'r Ymddiriedolion wedi cydymffurfio ag adran 2 o Ddeddf Elusennau 2011 drwy roi sylw dyledus i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus. Er mai pobl sy'n byw yng Nghymru yw ein prif fuddiolwyr, mae'r Cynllun Strategol 'Llyfrgell i Gymru a'r Byd' hefyd yn pwysleisio ein heffaith fyd-eang fel cyrchfan ddiwylliannol i ymwelwyr a thrwy ein gwasanaethau i ddefnyddwyr ar-lein ledled y byd.

### 2.3 Prif Weithgareddau

Mae ein prif weithgareddau, yr ymgwymerir â hwy i hyrwyddo dibenion yr elusen er budd y cyhoedd yng Nghymru, fel a ganlyn:-

#### 2.3.1. Casglu:

Casglu deunyddiau trwy adneuon cyfreithiol, pryniannau, rhoddion, cymynroddion, cyfnewidiadau ac adneuon, yn unol â pholisïau datblygu casgliadau y cytunwyd arnynt.

Cyflawnir y swyddogaeth hon trwy:

- greu casgliad mor gyflawn â phosibl, ym mhob cyfrwng, o ddeunydd cyhoeddus yn ymwneud â Chymru (a gwledydd Celtaidd eraill i raddau llai), gan gynnwys cyhoeddiadau electronig ac argraffedig a deunydd sain/delweddau symudol;
- gynnal (yn bennaf trwy adneuon a phryniannau cyfreithiol) y casgliad mwyaf cynhwysfawr yng Nghymru o ddeunyddiau printiedig a gyhoeddwyd yn y DU ac Iwerddon, a deunydd ymchwil o wledydd eraill;
- ddatblygu casgliadau o ddeunyddiau heb eu cyhoeddi sy'n ymwneud â Chymru neu'n deillio ohoni, gan gynnwys archifau a gwaith artistig;
- gael mynediad i waith a gaffaelwyd, ei brosesu, ei gatalogio a'i storio yn y ffordd fwyaf effeithiol.

#### 2.3.2. Cadw a Gwarchod:

Cadw a gwarchod y casgliadau. Cyflawnir y swyddogaeth hon trwy:

- sicrhau bod amodau amgylcheddol, storio a thrin yn briodol ar gyfer cadwraeth barhaus y casgliadau;
- ymyrryd i gadw deunyddiau'n weithredol i atal dirywiad neu atgyweirio difrod;



- drosglwyddo gwybodaeth i fformatau cadw mwy priodol.

### 2.3.3. Darparu mynediad a gwybodaeth:

Darparu mynediad cyhoeddus addas/effeithiol i adeilad y Llyfrgell, ei chasgliadau a'i gwasanaethau, a gwybodaeth amdanynt. Cyflawnir y swyddogaeth hon trwy:

- onitro a dadansoddi anghenion defnyddwyr;
- ddarparu mynediad i fannau cyhoeddus, casgliadau a chyfleusterau o fewn yr adeilad;
- drefnu mynediad i eitemau o'r casgliad a gwasanaethau gwybodaeth ar gyfer defnyddwyr ar y safle neu drwy gyfathrebu ar-lein i ddefnyddwyr o bell;
- ddarparu mynediad hawdd i gatalogau o gasgliadau ac adnoddau electronig y Llyfrgell, ac i'w fersiynau digidol cyfatebol.

### 2.3.4 Hysbysebu a dehongli:

Codi ymwybyddiaeth o waith a chasgliadau'r Llyfrgell a lledaenu gwybodaeth amdanynt. Cyflawnir y swyddogaeth hon trwy:

- ddeunyddiau ar wefan y Llyfrgell;
- anllawiau a deunyddiau cyhoeddusrwydd ar bapur ac ar-lein;
- arddangosfeydd a gweithgareddau addysgol/cymunedol yn deillio o'r casgliadau, yn y Llyfrgell ac mewn lleoliadau eraill ledled Cymru;
- ddigwyddiadau, darlithoedd a seminarau.

### 2.3.5. Cydweithrediad proffesiynol:

Cydweithio â, ac weithiau arwain, grwpiau proffesiynol cysylltiedig, ledled Cymru a thu hwnt.

Cyflawnir y swyddogaeth hon trwy:

- weithredu fel canolbwynt ar gyfer cyrff llyfrgelloedd ac archifau yng Nghymru;
- weithio gyda chyrff yng Nghymru a thu hwnt i ddilyn mentrau a phartneriaethau cydweithredol yn y sectorau eang o drefnadaeth, diwylliant a gwybodaeth, ac i hybu arfer proffesiynol.

### Swyddogaethau cymorth:

Cefnogir y **swyddogaethau craidd** gan swyddogaethau rheoli a busnes hanfodol, gan gynnwys: rheoli a datblygu staff; rheoli a bod yn atebol am adnoddau ariannol a chynhyrchu incwm; a chynnal a datblygu isadeiledd TGCh ac adeilad a chyfleusterau'r Llyfrgell.

Mae'r Llyfrgell yn cyflwyno Cynllun Gweithredol Blynyddol i Lywodraeth Cymru ar sut y caiff y gweithgareddau eu cyflawni ac yn targedu yn erbyn y gweithgareddau hyn. Mae rhagor o fanylion am sut mae'r strategaeth hon yn cael ei llunio a'i chyflawni wedi'u cynnwys yn adran 7.

### 3. CYFLAWNIAD A PERFFORMIAD

#### 3.1 Uchafbwyntiau allweddol yn 2021/22

Drwy gydol y flwyddyn adrodd flaenorol (2020/21), cafodd Coronafeirws effaith sylweddol ar waith y Llyfrgell. Wrth i 2021/22 gychwyn roedd cyfyngiadau yn llacio a llwyddodd y Llyfrgell i ailafael yn nifer o wasanaethau a gweithgareddau er i don Omicron amharu rhywfaint ar weithgareddau yn ystod Rhagfyr 2021 ac i mewn i'r Flwyddyn Newydd.

##### 3.1.1 Lansio Cynllun Strategol newydd ar gyfer 2021-2026

Ar 18 Tachwedd 2021, lansiodd Dawn Bowden AS, y Dirprwy Weinidog dros y Celfyddydau a Chwaraeon, Gynllun Strategol 2021-2026 Llyfrgell Genedlaethol Cymru – Llyfrgell i Gymru a'r Byd mewn digwyddiad ar-lein.

##### 3.1.2 Datblygu Mannau Cyhoeddus yn Adeilad y Llyfrgell yn Aberystwyth

Ar ôl buddsoddiad cyfalaf sylweddol i gynnal a chadw'r adeilad dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, trodd y ffocws yn ystod 2021/22 ar wella manau cyhoeddus. Agorwyd arddangosfa'r neuadd ganolog yn llwyddiannus ym mis Medi tra bod cynlluniau ar gyfer adnewyddu Ystafell Ddarllen y De wedi hen ddechrau erbyn diwedd 2022. Yn ogystal, comisiynwyd gwaith ar ardal deuluol newydd yn ogystal â gwelliannau i Gaffi Pen Dinas.

##### 3.1.3 Prosiect Archifau Darlledu Cenedlaethol

Rhodddwyd Caniatâd i Gychwyn yn ystod 2021/22 ar gyfer y prosiect i sefydlu Archif Ddarlledu Genedlaethol i Gymru. Yn dilyn ailfodelu'r prosiect yn ystod 2020-21 mae'r cynlluniau bellach yn cynnwys dau bartner arwyddocaol newydd. Bydd S4C yn ymuno â BBC Cymru ac ITV Cymru i gyfrannu eu harchif i'r prosiect tra bod Canolfan Mileniwm Cymru yng Nghaerdydd ar fin sefydlu canolfan newydd a fydd yn galluogi'r cyhoedd i weld, gwrando, a mwynhau'r archif gyfoethog hon.

##### 3.1.4 Prosiect Datgloi Ein Treftadaeth Sain

Roedd DETS yn brosiect pum mlynedd ledled y DU a ariannwyd gan grant o £9.3 miliwn gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Arweiniwyd y prosiect gan y Llyfrgell Brydeinig, gyda'r nod o ddarparu mynediad a chadw'r treftadaeth sain sydd fwyaf agored i niwed ac sydd mewn perygl yn y DU, creu canolfannau rhagoriaeth mewn cadwraeth sain ddigidol o amgylch y DU a chynnwys cynulleidfaoedd newydd mewn ymgysylltu â threftadaeth sain. Ymunodd LIGC â'r prosiect ym mis Awst 2018, fel un o'r deg hyb sydd wedi'u lleoli ar draws y DU. Yn ystod y cyfnod rhwng Awst 2018 a Rhagfyr 2021, achubodd y Llyfrgell 3,889 o recordiadau sain mewn perygl, recriwtiodd 101 o wirfoddolwyr, cynhaliodd 99 o ddigwyddiadau dysgu gyda 1,638 o gyfranogwyr a darparodd 15 diwrnod o hyfforddiant i'r sector. Roedd hyn yn gyflawniad arwyddocaol, yn enwedig gan fod cau'r adeilad am 33 wythnos yn ystod y pandemig wedi atal digideiddio'r casgliadau neu ymgysylltiad corfforol â chynulleidfaoedd yn ystod y cyfnod hwn.

##### 3.1.5 Yr Archif Gerddorol Gymreig

Lansiwyd rhaglen Archif Gerddorol Gymreig yn 2017 i gasglu a hyrwyddo'r defnydd o archifau a llawysgrifau cerddoriaeth. Wedi'i ariannu'n rhannol drwy gronfeydd preifat, gwnaeth gyfraniad sylweddol at gyfoethogi'r casgliad cerddoriaeth a datblygu cynulleidfaoedd newydd. Yn ogystal â sicrhau

bod llawer o gasgliadau archifol ar gael, gan gynnwys datblygu cronfa ddata cerddoriaeth werin Gymreig yn seiliedig ar y cardiau mynegai a grëwyd gan Dr Meredydd Evans a Phyllis Kinney, ymgwymerodd â llawer o weithgareddau eraill. Bu'n gweithio gyda Tŷ Cerdd i hybu ymgysylltiad cymdeithasol, gyda Phrifysgol Bangor a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gefnogi ymchwil ac ymgysylltu'n weithredol â cherddorion a pherfformwyr. Daeth y rhaglen i ben ym mis Rhagfyr 2021, ond mae'r llwyddiant yn hyrwyddo'r Archif drwy gyfweiliadau radio a theledu, y cyfryngau cymdeithasol a digwyddiadau corfforol ac o bell wedi codi ei phroffil ac wedi cyfrannu at dwf a gwybodaeth am y casgliadau.

### 3.2. Dangosyddion Cyflawniad Allweddol

Adroddwyd ar berfformiad y Llyfrgell yn erbyn ei thargedau i Lywodraeth Cymru yn 2021/22 fel a ganlyn:

	Targed	Cyrhaeddiad
Nifer ymweliadau â chasgliadau a gwasanaethau digidol y Llyfrgell	1,800,000	2,061,203
Defnyddwyr newydd casgliadau a gwasanaethau digidol y Llyfrgell	1,000,000	1,330,341
Nifer yr ymatebion i ymholiadau o bell	7,000	6,535
Bodddhad defnyddwyr - ymweliadau corfforol	96%	100%
Bodddhad defnyddwyr - ymweliadau digidol	80%	86%
Cyfanswm nifer y digwyddiadau (cyfanswm)	150	338
Digwyddiadau ar y safle a drefnir gan y Llyfrgell	80	141
Digwyddiadau ar y safle a drefnir gan eraill (defnydd allanol o gyfleusterau)	50	73
Digwyddiadau allgymorth a drefnir gan y Llyfrgell	70	124
Nifer y cyfranogwyr ym mhob un o weithgareddau'r Llyfrgell (cyfanswm)	11,500	11,379
Nifer y cyfranogwyr mewn digwyddiadau ar y safle a drefnir gan y Llyfrgell	10,000	8,805
Nifer y cyfranogwyr mewn digwyddiadau allgymorth a drefnir gan y Llyfrgell	1,500	2,574
Gwirfoddolwyr Digidol	900	897
Nifer y digwyddiadau Cyfuno a gweithgareddau'r Gwasanaeth Addysg	35	92
Cyfranogwyr mewn digwyddiadau Cyfuno a gweithgareddau'r Gwasanaeth Addysg	900	2,708
Nifer yr eitemau dehongli newydd a gyhoeddir ar-lein gan y Llyfrgell	1,200	2,554
Tudalennau digidol newydd wedi eu creu drwy raglen ddigido'r Llyfrgell	200,000	157,212
Nifer yr argraffiadau ar draws sianeli'r cyfryngau cymdeithasol	2,750,000	2,900,604
Cyrhaeddiad cynnwys y Llyfrgell ar Wikimedia	190,000,000	211,034,503

Mae perfformiad yn erbyn targedau yn cael ei adolygu gan Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd gyda nodiadau a dehongliadau yn cael eu darparu ynglŷn â chyflawniadau yn erbyn targedau.

Mae'n ofynnol i ni fonitro'n barhaus a gwerthuso ein gwaith yn feintiol ac yn ansoddol. Er bod ein dangosyddion cyflawniad meintiol yn rhoi cipolwg o berfformiad, mae'r data ansoddol o astudiaethau achos ac adroddiadau naratif yn parhau i roi cipolwg manylach, ac yn gyfle i fyfyrion ar ein gwaith a'i gyfoethogi.

## 4 ADOLYGIAD ARIANNOL

### 4.1 Canlyniadau a Dyraniadau Ariannol

Paratoir y cyfrifon o dan Adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Oriolau 1992 ar ffurf a gyfarwyddir gan Weinidogion Llywodraeth Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys. Roedd adnoddau net y Llyfrgell a dderbyniwyd am y flwyddyn ariannol yn £3,942k (2020/21: £3,208k). Cyfanswm yr adnoddau a dderbyniwyd gan y Llyfrgell oedd £18.78m (2020/21: £17.31m) a chyfanswm yr adnoddau a wariwyd oedd £14.83m (2020/21: £14.10m).

Cynyddodd y gronfa gyhoeddus anghyfyngedig o £789k i £1,580k.

Roedd balansau'r gronfa ar 31 Mawrth 2022 yn £83.0m (31 Mawrth 2021 £78.2m).

### 4.2 Datganiad o Arferion Cymeradwy i Elusennau

Cyhoeddodd y Comisiwn Elusennau Ddatganiad o Arferion Cymeradwy (DOAC) ar gyfer elusennau ym mis Hydref 1995, a ddiweddarwyd yn fwyaf diweddar gan y DOAC Elusennau 2015. Mae'r Llyfrgell wedi cydymffurfio â'r DOAC ers cyfrifon 1996/97.

### 4.3 Priso Asedau Sefydlog Diriaethol

Comisiynodd y Llyfrgell ailbrisiad gan Cooke & Arkwright, Syrffewyr Siartredig, o adeiladau a thir rhydd-ddaliadol y Llyfrgell ar 31 Mawrth 2021. Caiff gwerthoedd tir ac adeiladau eu haddasu'n flynyddol drwy fynegeoio rhwng pob prisiad ffurfiol sydd fel arfer yn digwydd bob pum mlynedd. Nid yw asedau sefydlog eraill yn cael eu hailbrisiu na'u mynegeoio, ac o 2017-18, cânt eu cadw ar gost wreiddiol wedi tyngu i ffwrdd dibrisiant.

### 4.4 Polisi Cronfeydd Elusennol

Mae DOAC Elusennau 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llyfrgell ddatgelu ei pholisi ar Gronfeydd Wrth Gefn.

#### 4.4.1 Cronfeydd Cyhoeddus Anghyfyngedig

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar hyn o bryd yn ddibynnol ar Lywodraeth Cymru i gynnal y mwyafrif o'i gweithgareddau. Polisi Cronfeydd Cyhoeddus Wrth Gefn y Llyfrgell yw cydymffurfio â gofynion Dogfen Fframwaith Llywodraeth Cymru, sy'n nodi'r fframwaith ariannol y mae'n ofynnol i'r Llyfrgell weithredu oddi tano. Prif ofyniad y Ddogfen Fframwaith mewn perthynas â chronfeydd wrth gefn yw mai dim ond 2% o Grant Cymorth gros y gellir ei gadw fel balansau arian parod. Effaith eithaf hyn fydd cyfyngu ar y lefel o gronfeydd wrth gefn y medrir eu cadw. Mae lefelau isel o gronfeydd wrth gefn a chyfalaf gweithiol yn arbennig o anodd ar adeg o ansicrwydd ariannol a byddai lliniaru risgiau yn cyfiawnhau cario lefelau uwch o gronfeydd wrth gefn oherwydd y rhagolygon ariannol. Mae hefyd yn wir na all cronfeydd wrth gefn cyhoeddus gael eu gwario heb y ddarpariaeth o gyllideb yng nghyllideb gyhoeddus Llywodraeth Cymru. Felly, er bod y Llyfrgell yn dangos rhain ar y Fantolen, ni fyddant ar gael i'w defnyddio onibai y dapreriwr cyllideb ar eu cyfer, ac ymddengys bod gan y Llyfrgell ddylanwad cyfyngedig dros y broses. Mae hyn yn cynyddu lefel y risg ariannol i'r Llyfrgell ac mae gofynion Llywodraeth Cymru yn cyfyngu ar allu'r Llyfrgell i reoli risg ariannol.

#### 4.4.2 Cronfeydd Cyhoeddus Cyfyngedig

Mae cronfeydd cyfyngedig cyhoeddus yn cynrychioli Grantiau Cyfalaf a Phrynu a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru neu unrhyw grant a dderbynnir gan gorff cyhoeddus at ddibenion penodol. Mae'r

cyllid hwn hefyd wedi'i gyfyngu i 2% o'r Grant Cymorth gros a ddygir drosodd mewn balansau arian parod.

#### 4.4.3 Cronfeydd Preifat Anghyfyngedig

Mae tri phrif amcan i gronfeydd preifat anghyfyngedig y Llyfrgell:

- Cyfrannu at gostau refeniw rhedeg gwasanaethau'r Llyfrgell.
- Atodi'r Grant Prynu Casgliadau i alluogi'r Llyfrgell i gyflawni ei pholisi casgliadau.
- Ariannu buddsoddiad cyfalaf neu ddatblygiadau yn y dyfodol gan gynnwys offer, adeiladau a chaledwedd a meddalwedd cyfrifiadurol.

Mae lefel y gronfeydd wrth gefn yn cael ei adolygu a'i fonitro gan y Bwrdd drwy'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol a chytunwyd arno yn Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Llyfrgell.

#### 4.4.4 Cronfeydd Preifat Cyfyngedig

Dim ond yn unol ag unrhyw delerau penodedig ar gyfer pob cymynrodd penodol y gellir defnyddio gronfeydd preifat cyfyngedig y Llyfrgell. Dim ond at y dibenion a ddisgrifir y gellir eu defnyddio ac felly dim ond pan fydd eitem o wariant sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gronfa yn cael ei chymeradwyo gan y Bwrdd neu'r cyllidwr y cânt eu defnyddio.

### 4.5 Polisi Buddsoddi

Mae'r portffolio wedi'i fuddsoddi mewn ecwitiau a bondiau ac mae'r swm y gellir ei fuddsoddi mewn gwahanol ddosbarthiadau o asedau wedi'i osod yn unol ag asesiad risg. Ystyrir bod agwedd y Llyfrgell at risg yn "gymedrol", gan dderbyn, er mwyn sicrhau enillion uwch na rhoi arian mewn cyfrif adnau, y bydd risg o ganlyniad i fuddsoddi mewn bondiau ac ecwitiau.

Mae'r Bwrdd yn adolygu'r Polisi a Strategaeth Buddsoddi yn flynyddol, sy'n cynnwys ystyried buddsoddiadau cymdeithasol, amgylcheddol neu foesebol. Yn ystod 2021-22 comisiynodd y Bwrdd adolygiad annibynnol o berfformiad rheolwyr buddsoddi'r Llyfrgell.

Mae'r Llyfrgell wedi penodi rheolwyr buddsoddi, Investec Wealth & Investment, sy'n gyfrifol am fuddsoddi'r portffolio gronfeydd preifat. Mae'r rheolwyr wedi cael meincnod ar gyfer perfformiad y portffolio buddsoddi, ac yn 2021/22 cafwyd elw o 5.9% yn erbyn meincnod o 7.8% (2020/21: 22.76% yn erbyn meincnod o 16.63%).

Rheolwyd y buddsoddiadau ar sail ddewisol yn unol â gofynion Deddf Buddsoddiadau Ymddiriedolion 1961 ac yn ddiweddarach Deddf Ymddiriedolion 2000. Mae perfformiad y portffolios yn cael ei fonitro a'i gyflwyno'n rheolaidd ar ffurf adroddiad i'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol a'r Ymddiriedolion. Ar 31 Mawrth 2022, gwerth marchnadol y buddsoddiadau ac arian parod oedd £14.28m (£13.63m ar 31 Mawrth 2021).

### 4.6 Risgiau allweddol

#### 4.6.1 Cynllunio ariannol

Yn dilyn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a'r Dirprwy Weinidog dyfarnwyd £500k o gyllid grant cymorth refeniw ychwanegol i'r Llyfrgell yn 2020/21. Yn 2021/22 mae £750K ychwanegol wedi'i ddyrannu i dalu costau gweithredu'r Adolygiad Teilwredig, a £1,000k i gwrdd â'r pwysau ariannol eraill. Cadarnhawyd y £1,000k hwn yn grant cymorth sylfaenol y Llyfrgell o 2022/23 ymlaen.

Adolygodd y Llyfrgell ei pholisi ar gyfer gronfeydd elusennol yn ystod 2021/22. Mae gronfeydd preifat anghyfyngedig ar gael i'r Bwrdd er mwyn rheoli risg ariannol fel rhan o'i bolisi gronfeydd wrth gefn.

#### 4.6.2 Cynllun Pensiwn

Cafwyd prisiad actiwaraidd o'r cynllun ar 31 Mawrth 2019. Mae prif ganlyniadau prisiad actiwaraidd y Cynllun fel a ganlyn:

- Mae lefel y cyllid ar 31 Mawrth 2019 wedi cynyddu i 100% (2016: 99%).
- Bellach mae asedau wrth gefn o gymharu â'r rhwymedigaethau cronedig o £300k (2016: roedd diffyg o £400k).
- Mae cyfradd y cyfraniadau Llyfrgell sydd eu hangen i gwrdd â chroniad buddion gwasanaeth yn y dyfodol, gydag oedran ymddeol arferol o 65, wedi cynyddu i 34.2% o gyflogau pensiynadwy (2016: 27.2%)

Bydd y gyfradd cyfraniad ychwanegol yn cael ei rhoi ar waith o 1 Ebrill 2023 yn dilyn cyfraniad cyflogwr ychwanegol o £400k ym mis Mawrth 2020, £400k ym mis Mawrth 2021 a £1m arall ym mis Mawrth 2022.

Ar 1 Gorffennaf 2017 gallai staff presennol hefyd ddewis cyfrannu naill ai 3% o'u cyflog tuag at beidio â chael gostyngiad yn eu pensiwn os ydynt yn ymddeol yn 60 oed neu dderbyn bod yr oedran ymddeol wedi newid i 65, ac felly bydd gostyngiad actiwaraidd yn y pensiwn os ydynt yn ymddeol cyn y dyddiad hwn. Mae gan aelodau newydd o staff ar ôl y dyddiad hwn ddyddiad ymddeol arferol o 65.

Cynhelir prisiad actiwaraidd nesaf y cynllun ar 31 Mawrth 2022. Rhagwelir y bydd costau parhau â'r cynllun yn cynyddu'n sylweddol ac mae'r Bwrdd ar hyn o bryd yn ystyried opsiynau ar gyfer trefniadau pensiwn yn y dyfodol.

## 5 ADRODDIAD CYNALADWYEDD

Cydymffurfiwyd â'r adroddiad hwn yn unol â'r canllawiau a osodwyd gan Drysorlys EM yn *Adroddiadau Blynyddol y Sector Cyhoeddus: Canllawiau Adrodd ar Gynaliadwyedd*. Yn ystod 2021-22, cyflawnwyd y canlynol: -

	2021-22	2020-21	2019-20
<b>Defnydd o ddŵr</b>			
Defnydd o ddŵr m3	6,559	6,139	9,585
Defnydd o ddŵr m3 fesul GIE*	30.78	28.46	43.37
Costau cyflenwad dŵr £	£27,785	£23,110	£39,191
<b>Defnydd o bapur</b>			
Defnydd o bapur mewn rimiau (allanol a mewnol)	262	6	698
Defnydd o bapur mewn rimiau (defnydd mewnol)	199	2	632
<b>Gwastraff</b>			
Cyfanswm gwastraff (tunelli)	38.99	14.17	42.44
Wedi'i aildddefnyddio, ei ailgylchu, ei gompostio	12.21	3.55	33.9
Tirlenwad	26.78	10.62	8.58
Peryglus	-	-	-
Wedi'i aildddefnyddio, ei ailgylchu, ei gompostio fel % o gyfanswm y gwastraff	31.3%	25.0%	79.8%
Cyfanswm cost gwaredu	£12,003	£8,344	£9,125
<b>Allyriad nwyon tŷ gwydr</b>			
Cyfanswm cyfwerth y tunelli o allyriadau CO <sup>2</sup>			
Gellir ei briodoli i deithio busnes	4	0	17
Gellir ei briodoli i ddefnydd ynni (1,000 tCO <sup>2</sup> e)			
Trydan a Nwy	1,020	1,133	1,276
Gellir ei briodoli i'r defnydd o ynni			
Trydan (kWh)	2,210,485	2,235,894	2,521,075
Nwy (kWh)	3,019,497	3,348,749	3,458,695
Gwariant ar deithiau busnes £ (Car, Trên, Bws ac Awyren)	£6,334	£51	£49,360
Cyfanswm gwariant ynni £	£401,447	£354,872	£394,724

\*GIE = cyfwerth ag amser llawn

Nodyn ar Ynni:

Mae costau'n gyfansymiol ar gyfer y safle gan gynnwys ynni a gyflenwir i adeiladau cyfagos, ond dim ond ar gyfer adeiladau'r Llyfrgell Genedlaethol y mae'r defnydd yn cael ei ddefnyddio.

Roedd cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021/22 yn cynnwys cyllid cyfalaf ychwanegol o £0.5M i'r Llyfrgell gychwyn ar ei rhaglen datgarboneiddio. Cynllunnir amnewid y system wresogi sy'n defnyddio nwy am ynni o'r ddaear ac offer gwresogi/oeri cyfun. Bydd hyn yn cynnal amodau amgylcheddol ar gyfer storio'r casgliadau ac ar yr un pryd yn darparu gwres ar gyfer rhannau eraill o'r adeilad. Mae'r Llyfrgell yn datblygu system gynhyrchu solar ffotofoltäig ar y safle, ac wedi cyflwyno cais amlinellol ar gyfer gosodiad ar gae cyfagos. Mae'r Llyfrgell wedi sicrhau rhywfaint o arian ar gyfer datgarboneiddio yn y blynyddoedd i ddod, ond ar hyn o bryd mae hyn yn annigonol i ddod yn garbon niwtral erbyn diwedd y 2020au.

Mae gwastraff garddwriaethol a gynhyrchir ar y safle yn cael ei gompostio ar y safle. Nid yw maint y gwastraff hwn yn cael ei fesur.



## 6 POLISIŌAU SY'N YMWNEUD Â STAFF

### 6.1 Cyflog Byw

Mae'r Llyfrgell wedi ymrwymo i dalu'r cyflog byw fel y nodir gan y Living Wage Foundation ers mis Ebrill 2014.

### 6.2 Recriwtio a Chadw Staff

Dim ond trwy ymrwymiad ei staff y gall y Llyfrgell gyflawni ei nodau; felly mae'r Llyfrgell yn canolbwyntio ar ddarparu rhaglen hyfforddi a datblygu staff yn flynyddol i sicrhau bod pob aelod o staff yn cyflawni ei botensial.

### 6.3 Cyflogi Pobl Anabl

Mae'r Llyfrgell yn gweithredu dull recriwtio anwahaniaethol ac mae bob amser yn barod i ystyried ceisiadau gan bobl anabl a'u penodi. Mae'r Llyfrgell yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gweithwyr anabl yn cael y cyfleusterau angenrheidiol i gyflawni eu cyflogaeth yn effeithiol.

### 6.4 Ymgynghori â Gweithwyr

Mae'r Llyfrgell yn cyfathrebu gwybodaeth i staff trwy amrywiol dulliau gan gynnwys cyfarfodydd staff, e-byst wythnosol, sesiynau briffio tîm, Briff Craidd, ac ymgynghori a thrafod rheolaidd gyda'r Cyngor Partneriaeth a chynrychiolwyr yr Undebau Llafur cenedlaethol. Mabwysiadodd y Llyfrgell Strategaeth Cyfathrebu Mewnol yn 2016 a bydd gweithredu'r Strategaeth hon yn gyfle pellach i ddatblygu'r berthynas rhwng rheolwyr a staff.

### 6.5 Adroddiad Tâl

Mae'r Llyfrgell yn talu ei holl staff o dan system gyflogaeth a graddfeydd y cytunwyd arni. Cymeradwywyd y system bresennol gan Dîm Gweithredol y Llyfrgell a chytunwyd arni gyda'r undebau staff drwy'r trefniadau cydfargeinio. Mae proses apelio annibynnol ar waith i ystyried materion graddio.

Bob blwyddyn, mae'r Llyfrgell, mewn ymgynghoriad ag undebau'r staff, yn ystyried pecyn tâl y Llyfrgell yn erbyn cymaryddion allanol, symudiadau yn yr economi ac unrhyw anghydraddoldebau mewnol a all fod wedi datblygu. O hyn, cynhyrchir cylch gwaith neu gynnig cyflog a chyflwynir hwn i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo ac yna caiff ei drafod yn ffurfiol gyda'r undebau. Mae hyn yn arwain at becyn tâl ac amodau newydd ar gyfer holl staff y Llyfrgell sy'n rhwymol tan y rownd nesaf o drafodaethau. Mae codiadau cynyddrannol o dan y cylch cyflog yn dibynnu ar system y Llyfrgell o werthusiadau blynyddol. Mae elfennau chwyddiant sydd wedi'u cynnwys yn y cylch cyflog y cytunwyd arno yn cael eu dyfarnu'n awtomatig i bob aelod o staff.

Mae cyflogau'r Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd a'r ddau Gyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr wedi'u cynnwys fel rhan o'r trafodaethau cylch gwaith cyflog mewn perthynas â holl staff y Llyfrgell. Roedd gan y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd gytundeb cyflogaeth am gyfnod penodol yn ystod y flwyddyn ac roedd gan y ddau Gyfarwyddwr/Dirprwy Brif Weithredwr gytundebau parhaol. Mae'r tri yn aelodau cyffredin o gynllun pensiwn y Llyfrgell.

Mae'r cylch cyflog wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Dangosir aelodaeth y Tîm Gweithredol ar dudalen 2 a dangosir rhagor o fanylion am y tâl a'r buddion pensiwn yn Nodyn 8(c) i'r cyfrifon. Y cyfnod rhybudd ar gyfer aelodau'r Tîm Gweithredol yw 3 mis. Mae darpariaeth ar gyfer iawndal am derfynu swydd yn gynnwys wedi'i chynnwys yng nghytundeb diswyddo safonol y Llyfrgell.

## 7 CYNLLUNIAU AR GYFER CYFNODAU YN Y DYFODOL

Yn ystod 2021-22 dechreuodd y Llyfrgell weithredu Cynllun Strategol newydd ar gyfer 2021-2026 o dan y teitl 'Llyfrgell i Gymru a'r Byd'. Cymeradwywyd y fersiwn derfynol gan Fwrdd yr Ymddiriedolion ym mis Ionawr 2021. Mae'n gynllun uchelgeisiol sy'n darparu ffocws a chyfeiriad clir a chydgyssylltiedig wedi ei flaenori, i bawb sy'n ymwneud â'r sefydliad hyd at 2026.

Mae'r cynllun newydd yn nodi pedwar amcan strategol a llesiant:

- Meithrin a gofalu am gof y genedl
- Gosod y sylfaen ar gyfer economi wybodaeth
- Bod wrth galon bywyd cenedlaethol
- Grymuso dysgu ac ymchwil

Roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ystyriaeth allweddol wrth ddrafftio'r Cynllun Strategol newydd ac mae gofynion y Ddeddf wedi'u hystyried wrth lunio cynlluniau i gyflawni yn erbyn yr amcanion.

<b>Amcan Strategol 1</b>  <b>Meithrin a gofalu am gof y genedl</b>	<b>Sut y byddwn yn cyflawni hyn?</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Dal y Gymru gyfoes</li> <li>➤ Wedi ymrwymo i amrywiaeth</li> <li>➤ Arwain yng nghadwraeth a rheolaeth o wybodaeth</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn datblygu ac yn buddsoddi yn y gwaith o gasglu a chadw deunyddiau digidol mewn fformatau amrywiol</li> <li>• Byddwn yn sefydlu Archif Ddarlledu Genedlaethol a fydd yn gofnod cyfoethog a chynhwysfawr o fywyd yn yr 20fed a'r 21ain Ganrif</li> <li>• Byddwn yn darparu arweiniad a chynghor ar gadwraeth ac yn codi ymwybyddiaeth o'r risgiau o golli'r cof cenedlaethol yn yr oes ddigidol</li> <li>• Byddwn yn datblygu ein perthynas â llyfrgelloedd, archifau, amgueddfeydd ac eraill yn y sector treftadaeth wrth i ni gasglu cof y genedl</li> <li>• Byddwn yn meithrin ein cysylltiadau â chymunedau ethnig amrywiol ledled Cymru</li> <li>• Byddwn yn gweithio gyda'r cymunedau hyn wrth i ni barhau i ddatblygu ein Polisi Casgliadau</li> <li>• Byddwn yn adolygu'r ffordd y caiff ein casgliadau eu disgrifio, eu dehongli a'u hyrwyddo</li> <li>• Byddwn yn buddsoddi mewn meithrin a throsglwyddo sgiliau cadwraeth corfforol a digidol o fewn y Llyfrgell ac ar draws y sector</li> <li>• Byddwn yn buddsoddi yn natblygiad ein hisadeiledd technegol fel cartref dibynadwy ar gyfer ein casgliadau digidol</li> <li>• Byddwn yn cefnogi sefydliadau eraill gyda chadwraeth casgliadau digidol</li> <li>• Byddwn yn rhannu arfer da mewn rheoli gwybodaeth, cadwraeth a datblygu casgliadau yn rhyngwladol</li> </ul>
<b>Amcan Strategol 2</b>	<b>Sut y byddwn yn cyflawni hyn?</b>

<p><b>Gosod y sylfaen ar gyfer economi wybodaeth</b></p>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gwybodaeth sy'n bywiogi ac yn ysbrydoli</li> <li>➤ Creu cyfleoedd i gymryd rhan</li> <li>➤ Gwella profiad y defnyddiwr</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn adolygu'r ffordd rydym yn disgrifio casgliadau yn barhaus, er mwyn darparu mynediad effeithiol ac amlygu casgliadau 'cudd'</li> <li>• Byddwn yn gwella mynediad at gasgliadau corfforol drwy barhau â'n rhaglen ddigido</li> <li>• Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gynyddu'r defnydd o gasgliadau gan fusnesau a'r sector creadigol</li> <li>• Byddwn yn gweithio i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn fformat agored a hygyrch</li> <li>• Byddwn yn parhau i gynnig ystod o gyfleoedd gwirfoddoli ar safleoedd y Llyfrgell</li> <li>• Byddwn yn cynyddu cyfleoedd i wirfoddoli ac ymgysylltu â'r casgliadau ar sail ddigidol, gan ddefnyddio dulliau fel torfoli</li> <li>• Byddwn yn cefnogi rhaglenni a phrosiectau cyfranogol cenedlaethol a rhyngwladol</li> <li>• Byddwn yn datblygu ffyrdd newydd ac arloesol o ehangu mynediad at wybodaeth</li> <li>• Byddwn yn sicrhau bod adborth defnyddwyr a llais y defnyddiwr yn ganolog i ddatblygiad ein gwasanaethau</li> <li>• Byddwn yn buddsoddi yn yr adeilad yn Aberystwyth fel cyrchfan i ymwelwyr, lle gall ymwelwyr o Gymru a'r byd ymchwilio, darganfod a mwynhau</li> </ul>
<p><b>Amcan Strategol 3 Bod wrth galon bywyd cenedlaethol</b></p>	<p><b>Sut y byddwn yn cyflawni hyn?</b></p>
<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Cysylltu cymunedau</li> <li>➤ Rhannu casgliadau</li> <li>➤ Hyrwyddo Cymru fyd-eang</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn buddsoddi yn ein perthynas a'n cysylltiadau ag unigolion a chymunedau gyda'r nod o gynyddu gwerth ac effaith ein casgliadau a'n gwasanaethau</li> <li>• Byddwn yn sefydlu cysylltiadau gyda chymunedau a chynulleidfaoedd newydd</li> <li>• Byddwn yn ystyried pob cyfle i ehangu ein cysylltiadau â chyrrff a sefydliadau cyhoeddus ledled Cymru a thu hwnt</li> <li>• Byddwn yn gwella mynediad a chysylltiadau ledled Cymru drwy weithgareddau'r Archif Ddarlledu Genedlaethol.</li> <li>• Byddwn yn rhannu ein casgliadau yn eang ac yn agored gyda'r nod o gyrraedd y cyrhaeddiad mwyaf a'r ymgysylltu dyfnaf</li> <li>• Byddwn yn datblygu dulliau a sianelau ar gyfer gweithredu ar y cyd â'r cyhoedd i ddehongli ein hanes a'n diwylliant gyda'n gilydd</li> <li>• Byddwn yn cynnal arddangosfeydd a digwyddiadau ar themâu sy'n amserol ac yn berthnasol i Gymru heddiw</li> <li>• Byddwn yn hyrwyddo safleoedd y Llyfrgell fel cyrchfannau diwylliannol</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn datblygu ac yn darparu Strategaeth Ryngwladol ac yn cydweithio â Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill i hyrwyddo Cymru ar lwyfan byd-eang</li> <li>• Byddwn yn parhau i feithrin a chryfhau ein perthynas â'r Cymry alltud</li> </ul>
<b>Strategic Objective 4 Grymuso dysgu ac ymchwil</b>	<b>Sut y byddwn yn cyflawni hyn?</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Galluogi ymchwil ac arloesi</li> <li>➤ Cefnogi dysgu ffurfiol</li> <li>➤ Hyrwyddo dysgu anffurfiol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn meithrin perthynas gyda Sefydliadau Addysg Uwch a thimau ymchwil sydd â diddordeb yn y casgliadau</li> <li>• Byddwn yn archwilio ac yn arbrofi gyda thechnolegau newydd fel modd o wella mynediad ac ymchwil, cefnogi agweddau megis geodata, deallusrwydd artiffisial a mabwysiadu cysyniadau megis 'casgliadau fel data'</li> <li>• Byddwn yn cydweithio â phartneriaid a rhandaliad gyda'r nod o sefydlu ystorfa ddigidol achrededig y gellir ymddiried ynnddi fel isadeiledd ymchwil</li> <li>• Byddwn yn parhau i gyfrannu at ddatblygiad y Cwricwlwm i Gymru</li> <li>• Byddwn yn parhau i gynyddu ein hystod ein hunain o adnoddau dysgu digidol mewn cydweithrediad â phartneriaid</li> <li>• Byddwn yn buddsoddi yn ein gwasanaethau ar gyfer ysgolion ac addysg ôl-16</li> <li>• Byddwn yn datblygu rhaglen sy'n cefnogi dysgu anffurfiol a meithrin sgiliau a throsglwyddo gwybodaeth</li> <li>• Byddwn yn cynyddu'r cynnwys dehongli sydd ar gael ar-lein fel adnoddau ar gyfer dysgu anffurfiol</li> <li>• Byddwn yn archwilio cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth i gefnogi dysgu anffurfiol mewn cymunedau ledled Cymru</li> </ul>

**Ymddiriedolion**

Mae'r Ymddiriedolion wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau i roi sylw dyledus i ganllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau.

**Archwiliwr**

Archwilir y Cyfrifon gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol ag Adran 9(8) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Oriolau 1992 ar gyfer Cymru.

Pedr ap Llwyd  
PRIF WEITHREDWR A LLYFRGELLYDD  
22 Gorffennaf 2022

Lee Yale-Helms  
TRYSORYDD  
22 Gorffennaf 2022

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R BWRDD A'R LLYFRGELLYDD

O dan Adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992, mae'n ofynnol i Fwrdd Llyfrgell Genedlaethol Cymru baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf ac ar y sail a bennir gan Weinidogion Llywodraeth Cymru gyda chydysyniad y Trysorlys. Paratwir y cyfrifon i roi darlun cywir a theg o weithgareddau ariannol y Llyfrgell yn ystod y flwyddyn ac o'i sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn.

Wrth baratoi cyfrifon y Llyfrgell mae'n ofynnol i'r Bwrdd:-

- Gydymffurfio â'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan weinidogion Llywodraeth Cymru gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a'u cymhwyso'n gyson.
- Wneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol a doeth.
- Ddatgan a gadwyd at safonau cyfrifyddu addas a datganiadau o'r ymarfer a argymhellir, a datguddio ac esbonio unrhyw wro materol a welir yn y datganiadau ariannol.
- Baratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes byw, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Llyfrgell yn parhau i weithredu.

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi dynodi'r Llyfrgellydd yn Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y Llyfrgell. Mae ei gyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros briodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus y mae ef neu hi yn atebol amdano ac am gadw cofnodion cywir, wedi'u nodi ym Memorandwm Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru.

### Datganiad o Ddatgelu Gwybodaeth Archwilio Berthnasol

Hyd y gŵyr y Swyddog Cyfrifo, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohonynt, ac mae'r swyddog cyfrifo wedi cymryd pob cam y dylai ei gymryd i'w wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Pedr ap Llwyd  
PRIF WEITHREDWR A LLYFRGELLYDD  
22 Gorffennaf 2022

Cymeradwywyd ar ran y Bwrdd gan

Lee Yale-Helms  
TRYSORYDD  
22 Gorffennaf 2022

## Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer y Senedd

### Barn ar y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Llyfrgell Genedlaethol Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 o dan adran 9 o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiâu cyfrifyddu arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisiâu cyfrifyddu a nodir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102, y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon a'r Datganiad o Arferion Cymeradwy Elusennau (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar 31 Mawrth 2022 ac o'i hincwm net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; a
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan adran 9 o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992.

### Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli nhw.

### Sail y farn

Cynhaliiais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau o dan y safonau hynny yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwyf yn annibynnol o'r corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi ei chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barnau.

### Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnais, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau nac amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Llyfrgell Genedlaethol Cymru i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg pan awdurdodir cyhoeddiad y datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Llyfrgellydd fel Swyddog Cyfrifyddu mewn cysylltiad â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a gynhwysir yn y Cyfrifon Blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a rhannau eraill o'r adroddiad sy'n cael eu harchwilio a'm hadroddiad archwilydd arnynt. Mae'r Datganiad o Arferion Cymeradwy Elusennau yn nodi'r gofynion ar gyfer gwybodaeth arall, fodd bynnag, nid yw'r ddogfen, na deddfwriaeth, na'r cyfarwyddiadau a roddwyd i Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn nodi cynnwys a ffurf y Datganiad Llywodraethu Blynyddol na'r Adroddiad Tâl a gyflwynir gyda'r datganiadau ariannol. Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Llyfrgellydd fel Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn y cyfrifon blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, oni nodir yn benodol fel arall yn glir yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o sicrwydd ynghylch hynny.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn berthnasol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu ei bod yn ymddangos fel arall ei bod wedi'i chamddatgan yn berthnasol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol amlwg, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith a gyflawnais, yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi ei chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol imi sôn am y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd amdano i'r perwyl hwn.

## Adroddiad ynghylch gofynion eraill

### Barn ar faterion eraill

Gan nad fod y Datganiad o Arferion Cymeradwy Elusennau na deddfwriaeth yn nodi'r gofynion ar gyfer cynnwys a ffurf y Datganiad Llywodraethu neu'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a gyflwynwyd gyda'r datganiadau ariannol, ni allaf gadarnhau bod y Datganiad Llywodraethu na'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a gyhoeddwyd gyda'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn unol â'r canllawiau.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad, mae'r wybodaeth arall a roddir yn y Cyfrifon Blynyddol a gyhoeddwyd gyda'r datganiadau ariannol yn gyson â'r datganiadau ariannol. Er nad oes unrhyw ofynion deddfwriaethol ar gyfer Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth, mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi paratoi adroddiad o'r fath, ac yn fy marn i, mae'r rhan honno y mae'n ofynnol fel arfer ei harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad, mae'r wybodaeth yn y Cyfrifon Blynyddol, ac eithrio'r Datganiad Llywodraethu a'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth, ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer wedi'i pharatoi yn unol â'r Datganiad o Arferion Cymeradwy Elusennau.

### Materion y byddaf yn adrodd arnynt drwy eithriad

O ystyried yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Lyfrgell Genedlaethol Cymru a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn y Cyfrifon Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol yr adroddaf i chi, os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu boddhaol wedi eu cadw, neu ni dderbyniwyd ffurflenni cyfrifyddu digonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth y canghennau nad yw fy nhim wedi ymweld â nhw;
- nad yw'r datganiadau ariannol na rhan archwiliedig yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- na ddatgelir gwybodaeth a bennir gan Weinidogion Cymru ynghylch taliadau cydnabyddiaeth a thrafodion eraill; neu
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Llyfrgellydd am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Llyfrgellydd fel Swyddog Cyfrifyddu, y Bwrdd a'r Llyfrgellydd fel Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Amgueddfeydd ac Orielaau 1992 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed yno, i fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg ac am y fath reolaeth fewnol y mae'r Bwrdd a'r Llyfrgellydd yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, y Bwrdd a'r Llyfrgellydd sy'n gyfrifol am asesu gallu Llyfrgell Genedlaethol Cymru i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n briodol, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir bod hynny'n amhriodol.

### Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Sicrwydd rhesymol yw lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) yn canfod camddatganiad perthnasol bob amser pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi trwy dwyll neu wall a chânt eu hystyried yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yw achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn cysylltiad ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- holi'r rheolwyr, y pennaeth archwilio mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Llyfrgell Genedlaethol Cymru mewn cysylltiad â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig;
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- ystyried, gan weithredu fel tîm archwilio, sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Yn rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll yn y meysydd canlynol: cydnabod referniw a phostio cylchgronau anarferol;
- cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau ar gyfer ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol er mwyn asesu cydymffurfedd â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Risg a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch cyfreithiad a honiadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau perthnasol eraill;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrth-wneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion mewn cyfnodion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r barnau a wneir



wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i fusnes arferol; a

- profi'n sylweddol sampl o daliadau mawr o'r cofnodion bancio tua diwedd y flwyddyn ariannol i sicrhau eu bod wedi eu cyfrifo yn y flwyddyn gywir.

Rwyf hefyd wedi cyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau o dwyll posibl i bob aelod o'r tîm archwilio, gan barhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a natur, amseru a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad archwilydd.

### **Cyfrifoldebau rheoleidd-dra**

Y Llyfrgellydd fel Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol.

Rwy'n cael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol imi fod y gwariant a'r incwm wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli nhw.

### **Adroddiad**

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ynghylch y datganiadau ariannol hyn.



Adrian Crompton  
Archwilydd Cyffredinol Cymru  
4 Awst 2022

24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd  
CF11 9LJ

## DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022

Nodiadau	CRONFEYDD CYHOEDDUS		CRONFEYDD PREIFAT		2021/22	2020/21	
	Anghyfyngedig £'000	Cyfyngedig £'000	Anghyfyngedig £'000	Cyfyngedig £'000	Cyfanswm £'000	Cyfanswm £'000	
<b>Incwm:</b>							
Rhoddion a chymynroddion	15b	-	-	58	159	217	1,688
Gweithgareddau elusennol							
Grantiau llywodraethol	2	11,644	5,515	-	-	17,159	14,255
Grantiau Eraill	3	40	775	-	-	815	1,056
Gweithgareddau masnachu eraill	4	353	-	-	-	353	145
Incwm buddsoddi	15b	-	-	228	4	232	161
<b>Cyfanswm Incwm</b>		<b>12,037</b>	<b>6,290</b>	<b>286</b>	<b>163</b>	<b>18,776</b>	<b>17,305</b>
<b>Gwariant:</b>							
Costau codi arian	5	503	59	54	1	617	636
Gweithgareddau elusennol:							
Casgliad	5	2,469	814	-	-	3,283	3,263
Rhoi Mynediad a Gwybodaeth	5	3,056	847	-	-	3,903	3,883
Cyhoeddi a Dehongli	5	1,619	421	-	15	2,055	1,656
Cadwraeth a Diogelu	5	3,251	553	-	-	3,804	3,901
Llywodraethiant	5	1,478	307	-	-	1,785	1,391
Cyfanswm gwariant		<b>12,376</b>	<b>3,001</b>	<b>54</b>	<b>16</b>	<b>15,447</b>	<b>14,730</b>
(Enillion)/ Colled wrth waredu buddsoddiadau	15b	-	-	(926)	(17)	(943)	(1,063)
Costau Cyllid Pensiwn	22d	330	-	-	-	330	430
<b>Cyfanswm gwariant</b>		<b>12,706</b>	<b>3,001</b>	<b>(872)</b>	<b>(1)</b>	<b>14,834</b>	<b>14,097</b>
<b>Incwm net/ (gwariant)</b>		<b>(669)</b>	<b>3,289</b>	<b>1,158</b>	<b>164</b>	<b>3,942</b>	<b>3,208</b>
Trosglwyddiadau gros rhwng cronfeydd	15	-	(101)	110	(9)	-	-
		<b>(669)</b>	<b>3,188</b>	<b>1,268</b>	<b>155</b>	<b>3,942</b>	<b>3,208</b>
<b>Enillion/ (colledion) cydnabyddedig eraill:</b>							
Enillion/ (colledion) heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau	15b	-	-	(475)	-	(475)	1,271
Ennill/ (Colled) ar waredu asedau sefydlog		-	(21)	-	-	(21)	-
Ailbriso Asedau Sefydlog	10	-	4,751	-	-	4,751	(452)
Diriaethol, Mynegeio ac amhariad							
Enillion / (colledion) actiwaraidd ar gynllun pensiwn buddion diffiniedig	22e	(3,380)	-	-	-	(3,380)	(1,660)
Cyfanswm enillion/ (colledion)		(3,380)	4,730	(475)	-	875	(841)
<b>SYMUDIAD NET MEWN CRONFEYDD AM Y FLWYDDYN ARIANNOL</b>		<b>(4,049)</b>	<b>7,918</b>	<b>793</b>	<b>155</b>	<b>4,817</b>	<b>2,367</b>
BALANSAU'R GRONFA A DDYGWYD YMLAEN AR I EBRILL	15	(27,131)	82,785	14,822	7,728	78,204	75,837
<b>BALANSAU'R GRONFA A DDYGWYD YMLAEN AR 31 MAWRTH</b>	15	<b>(31,180)</b>	<b>90,703</b>	<b>15,615</b>	<b>7,883</b>	<b>83,021</b>	<b>78,204</b>

Mae'r holl weithgareddau yn parhau. Cofnodir yr holl enillion a cholledion cydnabyddedig yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Mae'r nodiadau ar dudalennau 35 i 57 yn rhan o'r cyfrifon hyn. Nid oes unrhyw incwm na gwariant gwaddol i'w adrodd.

## Y FANTOLEN AR 31 MAWRTH 2022

	Nodiadau	31 Mawrth 2022		31 Mawrth 2021	
		£000	£000	£000	£000
<b>ASEDION SEFYDLOG</b>					
Asedion Diriaethol	10	73,227		66,535	
Asedion Anniriaethol	10	270		337	
Asedau Treftadaeth	12	22,933		22,473	
Buddosddiadau	11	14,277		13,630	
			110,707		102,975
<b>ASEDION CYFREDOL</b>					
Stociau		47		45	
Dyledwyr	13	2,821		2,641	
Banc		2,840		1,614	
		5,708		4,300	
<b>CREDYDWYR</b>					
Symiau a ddaw yn ddyledus o fewn blwyddyn	14	(634)		(1,151)	
<b>ASEDION CYFREDOL NET</b>					
			5,074		3,149
Asedau net heb gynnwys rhwymedigaeth cynllun pensiwn					
			115,781		106,124
Rhwymedigaeth pensiwn buddion diffiniedig					
	22		(32,760)		(27,920)
<b>ASEDAU NET YN CYNNWYS RHWYMEDIGAETH CYNLLUN PENSIWN</b>					
			83,021		78,204
<b>CRONFEYDD</b>					
	15				
Cyhoeddus Anghyfyngedig		1,580		789	
Cronfa Bensiwn Wrth Gefn		(32,760)		(27,920)	
Cyfanswm Cronfeydd Cyhoeddus Anghyfyngedig		(31,180)		(27,131)	
Cyhoeddus Cyfyngedig (ac eithrio Cronfa Ailbriso Wrth Gefn)		64,582		61,415	
Cronfa Ailbriso Wrth Gefn		26,121		21,370	
Preifat Anghyfyngedig		15,615		14,822	
Preifat Cyfyngedig		230		249	
Casgliadau Cyfyngedig Preifat		7,653		7,479	
			83,021		78,204

Mae'r ymddiriedolion wedi paratoi'r cyfrifon yn unol ag adran 132 o Ddeddf Elusennau 2011.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 35 i 57 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Pedr ap Llwyd

PRIF WEITHREDWR A LLYFRGELLYDD  
22 Gorffennaf 2022

Lee Yale-Helms

TRYSORYDD  
22 Gorffennaf 2022

## DATGANIAD LLIF ARIAN AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022

		2021/22		2020/21	
		£000	£000	£000	£000
<b>Arian parod a gynhrychir o weithgareddau gweithredol</b>	17		<b>5,176</b>		4,534
<b>Llif arian o weithgareddau buddsoddol: -</b>					
Pryniant asedau sefydlog diriaethol ac anniriaethol	10	<b>(3,470)</b>		(3,085)	
Pryniant asedau treftadaeth	12	<b>(302)</b>		(218)	
Elw o werthu buddsoddiadau	11	<b>5,373</b>		6,383	
Pryniant Buddsoddiadau	11	<b>(6,686)</b>		(7,495)	
<b>Arian net a ddarperir gan/(a ddefnyddir mewn) gweithgareddau buddsoddi</b>			<b>(5,084)</b>		(4,415)
<b>Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Arian Parod a chyfwerth arian parod yn ystod y flwyddyn</b>			<b>92</b>		119
Arian parod a chyfwerth arian parod ar ddechrau'r flwyddyn			<b>3,067</b>		2,948
Cyfanswm arian parod a chyfwerth arian parod ar ddiwedd y flwyddyn	18		<b>3,159</b>		3,067

Mae'r nodiadau ar dudalennau 35 i 57 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## NODIADAU AR Y CYFRIFON AR 31 MAWRTH 2022

### I POLISI'AU CYFRIFYDDU

Mae'r prif bolisiau cyfrifyddu a fabwysiadwyd, dyfarniadau a ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrifol wrth baratoi'r datganiadau ariannol fel a ganlyn:

#### (a) **Sail y paratoi**

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102), y SORP Elusennau (FRS 102), a Chyfarwyddyd Cyfrifon 2007 a roddwyd i'r Llyfrgell gan Lywodraeth Cymru. Paratoir y cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn bodloni'r diffiniad o endid budd cyhoeddus o dan FRS 102. Caiff asedau a rhwymedigaethau eu cydnabod i ddechrau ar gost neu werth trafodiad hanesyddol oni nodir yn wahanol yn y nodyn / nodau polisi cyfrifyddu perthnasol.

Mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion y Safonau Cyfrifo a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol i'r graddau y mae'r gofynion hynny'n briodol. Nid yw'r Cyfarwyddyd Cyfrifon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llyfrgell gynhyrchu cyfrif incwm a gwariant cryno na nodyn o gost hanesyddol ar arian dros ben neu ddiffygion.

#### (b) **Adnoddau a Dderbyniwyd**

Mae'r holl incwm yn cael ei gydnabod pan fydd gan yr elusen hawl i'r cronfeydd, mae unrhyw amodau perfformiad sydd ynghlwm wrth yr eitem wedi'u bodloni, mae'n debygol y bydd yr incwm yn cael ei dderbyn a gellir mesur y swm yn ddibynadwy.

Mae'r holl Grant Cymorth gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol (DOWA) ar sail dderbyniadwy. Mae grantiau eraill o natur fwy penodol yn cael eu cydnabod ar sail dderbyniadwy pan fodlonir amodau grant.

Ar gyfer cymynroddion, cymerir hawl fel y dyddiad cynharaf; mae'r elusen yn ymwybodol bod profeb wedi'i rhoi, bod yr ystâd wedi'i chwblhau a bod yr ysgutor/wyr wedi hysbysu'r Llyfrgell y bydd dosbarthiad yn cael ei wneud, neu pan dderbynnir dosbarthiad o'r ystâd. Os yw'r elusen yn ymwybodol o gymynroddion neu os yw'r elusen yn ymwybodol bod profiant wedi'i rhoi, ac nid yw'r meini prawf ar gyfer cydnabod incwm wedi'u bodloni, yna caiff y gymynrodd ei thrin fel ased wrth gefn a'i datgelu os yw'n berthnasol. Rhoddir cyfrif am drosglwyddiadau o gronfeydd preifat ar ôl ystyried symudiadau mewn cyfalaf gweithio. Bydd incwm a dderbynnir yn ymwneud â chyfnodau cyfrifyddu dilynol yn cael ei drin fel incwm gohiriedig.

#### **Cyfrifo'r Cronfeydd**

Mae arian anghyfyngedig (cyhoeddus a phreifat) ar gael i'w wario ar weithgareddau sy'n hyrwyddo unrhyw un o amcanion cyffredinol y Llyfrgell. Mae cronfeydd cyfyngedig cyhoeddus yn cynrychioli Grantiau Cyfalaf a Phrynu a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru at ddibenion penodol. Serch hynny, ni fydd unrhyw gronfeydd cyfyngedig neu anghyfyngedig cyhoeddus sy'n cael eu cadw wrth gefn ac sy'n berthnasol i Grant Cymorth sydd heb ei wario o flynyddoedd blaenorol ar gael i'r Llyfrgell oni bai bod Llywodraeth Cymru yn darparu ar gyfer y gwariant yma yn ei gyllideb gyhoeddedig.

Mae cronfeydd cyfyngedig preifat yn gronfeydd sy'n amodol ar gyfyngiad penodol a osodir gan roddwyr neu gan bwrpas yr apêl. Cronfeydd dynodedig yw cronfeydd anghyfyngedig yr elusen

y mae'r ymddiriedolion wedi penderfynu yn ôl eu disgrisiwn eu gosod o'r neilltu at ddiben penodol. Mae cronfeydd cyfyngedig preifat yn gyfraniadau y mae'r rhoddwr wedi'u nodi i'w defnyddio'n unig ar gyfer meysydd penodol o waith y Llyfrgell neu ar gyfer prosiect penodol y mae'r Llyfrgell yn ymgymryd ag ef.

**(c) Gwariant**

Cydnabyddir gwariant unwaith y bydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i wneud taliad i drydydd parti, mae'n debygol y bydd angen setliad a gellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy. Pan eir i wariant ymlaen llaw ac yn ymwneud â chyfnod diweddarach, dim ond os yw'n uwch na £5,000 mewn gwerth y bydd y cyfrifon yn ystyried rhagdaliad. Os eir i wariant mewn ôl-ddyledion ond maent yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol gyfredol, dim ond os yw'n uwch na £5,000 mewn gwerth y bydd y cyfrifon yn ystyried cronïad. Dosberthir gwariant o dan y penawdau gweithgaredd canlynol:

- Mae cost codi arian yn cynnwys cost masnachu fasnachol, costau codi arian a ffioedd rheoli buddsoddiadau.
- Mae gwariant gweithgareddau elusennol yn cynnwys cost cynnal casgliadau, cadwraeth, addysg ac arddangosfeydd a gweithgareddau eraill a wneir i hyrwyddo dibenion yr elusen.
- Mae gwariant arall yn cynrychioli'r eitemau hynny nad ydynt yn perthyn i unrhyw benawdau eraill.

**(d) Buddsoddiadau**

Nodir buddsoddiadau ar werth y farchnad ar ddyddiad y fantolen. Caiff enillion a cholledion wrth waredu eu credydu neu eu codi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Adlewyrchir symudiadau yng ngwerth marchnad buddsoddiadau a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn hefyd yn y datganiad hwnnw yn unol â'r SORP Elusennau (FRS 102).

**(e) Asedau Diriaethol ac Anniriaethol**

Caiff peiriannau, offer a cherbydau modur unigol sy'n costio £5,000 neu fwy eu cyfalafu ar gost, oni bai bod yr offer yn rhan o grŵp o asedau, rhwydwaith neu brosiect lle mae'r gwerth dros £5,000. Caiff asedau eu dibrisio dros eu bywydau defnyddiol amcangyfrifedig ar sail llinell syth. Nid yw eitemau o natur gyfalaf sy'n costio llai na £5,000 yn cael eu cyfalafu a chânt eu dibrisio yn ystod y flwyddyn. Cedwir asedau nad ydynt yn eiddo (h.y. cerbydau & pheiriannau, a gosodiadau, ffitiadau ac offer) ar gost hanesyddol ac nid ydynt wedi'u mynegeoio gan fod gan yr asedau hyn fywydau economaidd defnyddiol byr neu werthoedd isel (neu'r ddau). Ystyrir bod hyn yn darparu cynrychiolaeth fwy dibynadwy, priodol a pherthnasol o werth teg yr asedau hyn. Ceir rhagor o fanylion yn Nodyn 10.

Fel arfer, caiff asedau tir ac adeiladau eu prasio'n broffesiynol bob pum mlynedd ar sail eu gwerth presennol mewn defnydd cyfredol gan dybio y byddai'r eiddo'n cael ei werthu fel rhan o fusnes parhaus ac yn cael ei ailbriso gan ddefnyddio mynegai yn y cyfamser. Cydnabyddir enillion ailbriso yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol o dan enillion/(colledion) ar ailbriso asedau sefydlog, ac eithrio i'r graddau y maent yn gwrthbwysu unrhyw ddibrisio gwariant blaenorol yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, ac os felly caiff yr enillion eu gwrthdroi yn erbyn y pennawd gwariant perthnasol. Cydnabyddir bod colledion ailbriso yn gost o dan y pennawd gwariant perthnasol yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ac eithrio i ba raddau y maent yn gwrthbwysu unrhyw enillion ailbriso blaenorol, ac os felly dangosir y golled o dan enillion/(colledion) ar ailbriso asedau sefydlog. Nodir bod gwaith cynnal a chadw rheolaidd mewn perthynas â'r eiddo hyn yn y gost refeniw yn y flwyddyn y caiff ei wneud.

Rhoddir dibrisiant yn llawn yn y flwyddyn gaffael, ar gyfraddau a gyfrifir i leihau pob ased i'w werth gweddilliol amcangyfrifedig yn gyfartal dros ei fywyd economaidd defnyddiol disgwylidig, fel y cynghorir gan y priswyr fel a ganlyn:

- Adeiladau rhydd-ddaliadol - hyd at 125 o flynyddoedd
- Cyfarpar, peiriannau ac offer - hyd at 30 mlynedd
- Offer cyfrifiadurol a datblygiad digidol - hyd at 10 mlynedd
- Cerbydau Modur - hyd at 5 mlynedd

Nid yw tir rhydd-ddaliadol yn cael ei ddibrisio.

Nid yw Pryniannau Casglu yn cael eu dibrisio (gweler Asedau Treftadaeth (f)).

Caiff asedau anniriaethol sydd â bywyd economaidd o fwy na blwyddyn ac sy'n werth mwy na £5,000 eu cyfalafu. Caiff yr holl asedau anniriaethol eu mesur ar gost. Caiff asedau anniriaethol eu hamorteiddio ar sail llinell syth dros gyfnod o 10 mlynedd.

#### (f) **Asedau treftadaeth**

Cyn 1 Ebrill 2001, nid oedd casgliad y Llyfrgell wedi'i gyfalafu yn y fantolen. Codwyd pryniannau ar gyfer y casgliad i Gronfeydd Cyhoeddus Cyfyngedig yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn y flwyddyn gaffael. Caiff pryniannau ar gyfer y casgliad eu cyfalafu yn y flwyddyn gaffael a'u cadw ar werth hanesyddol; nid yw'r asedau hyn yn cael eu hailbrisio na'u mynegeo.

Rhoddir cyfrif am roddion o eitemau i'r casgliadau pan gânt eu derbyn ar amcangyfrif o'u gwerth ar y farchnad. Yn dibynnu ar natur y rhodd, caiff gwerth y farchnad ei bennu gan staff Casgliadau'r Llyfrgell ei hun neu briswyr annibynnol fel y bo'n briodol. Nid yw'r asedau hyn yn cael eu hailbrisio na'u mynegeo.

Nid yw Asedau Treftadaeth yn cael eu dibrisio am fod ganddynt fywyd amhenodol.

Dim ond os oes tystiolaeth o nam y caiff swm cario ased ei adolygu.

#### (g) **Stociau**

Mae cost stociau o eitemau y gellir eu hailwerthu wedi'u cydnabod yn y fantolen ar yr isaf o'r gost neu'r gwerth net sylweddoladwy. Ni roddir gwerth ar asedau a gynhyrchir yn hanesyddol gan y Llyfrgell lle mae marchnad gyfyngedig ar gyfer y nwyddau neu'r nwyddau wedi amharu.

#### (h) **Costau Pensiwn**

Mae'r Llyfrgell yn gweithredu ei chynllun pensiwn ei hun sy'n darparu buddion yn seiliedig ar gyflog pensiynadwy terfynol. Codir cyfraniadau i'r cynllun ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol er mwyn lledaenu cost pensiynau dros fywydau gwaith cyflogeion. Cyfrifir y tâl i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn seiliedig ar y gost gwasanaeth cyfredol fel y'i cyfrifir gan actiwari'r cynllun.

#### (i) **Tâl gwyliau staff**

Ar ddiwedd y flwyddyn, darparwyd ar gyfer hawliau gwyliau staff nad ydynt wedi'u cymryd eto ac sy'n cael eu dwyn ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf yn y cyfrifon yn unol â gofynion FRS 102.

#### (j) **Trethiant**

Mae'r Llyfrgell wedi derbyn statws elusennol gan wasanaeth Cyllid a Thollau El Mawrhydi ac felly mae wedi'i heithrio rhag treth ar incwm ac enillion sy'n dod o fewn adran 505 o Ddeddf

Trethi 1988 neu adran 252 o Ddeddf Enillion Trethadwy 1992 i'r graddau y caiff y rhain eu cymhwyso i'w wrthrychau elusennol. Mae Treth ar Werth na ellir ei hadennill sy'n deillio o wariant ar weithgareddau nad ydynt yn ymwneud â masnachu yn cael ei chodi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol neu'n cael ei chyfalafu os yw'n gysylltiedig ag ased sefydlog.

**(k) Meysydd sylweddol o amcangyfrif a barn**

Mae paratoi'r datganiadau ariannol yn gofyn am ddyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar werthoedd asedau, rhwymedigaethau, refeniw a threuliau a gofnodwyd. Mae natur amcangyfrif a barn yn golygu y gallai canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r disgwyliad.

**Ffynonellau ansicrwydd amcangyfrifol**

- Mae'r rhwymedigaeth pensiwn buddion diffiniedig yn cael ei chydabod a'i datgelu yn unol ag FRS 102. Mae'r prisiad, a baratowyd gan actiwari cymwys, yn adlewyrchu nifer o ddyfarniadau ac amcangyfrifon gan gynnwys yr enillion disgwylidig ar asedau, y gyfradd ddisgowntio, chwyddiant cost a disgwyliad oes. Mae newidiadau yn y tybiaethau hyn yn cael effaith sylweddol ar werth y rhwymedigaeth pensiwn buddion diffiniedig. Ceir rhagor o fanylion yn Nodyn 22.
- Caiff asedau tir ac adeiladau eu prasio'n broffesiynol o bryd i'w gilydd. Paratoir y prisiad gan syrfewr cymwys ac fe'i paratowyd yn unol â Llyfr Coch RICS. Mae adeiladau wedi'u prasio ar sail 'gwerth y farchnad agored' neu 'gost adnewyddu wedi'i dibrisio' a dangosir tir ar 'werth defnydd presennol'. Mae'r dulliau hyn yn amodol ar dybiaethau a dyfarniadau amrywiol a gallai newidiadau yn y naill neu'r llall gael effaith sylweddol ar y prisiad. Ceir rhagor o fanylion yn Nodyn 10.

**(l) Busnes Gweithredol**

Paratowyd cyfrifon y Llyfrgell ar sail busnes gweithredol. Mae Bwrdd y Llyfrgell wedi cydnabod y diffygion sylweddol yn y cyfrif refeniw a ragwelwyd a bydd yn ystyried cynlluniau i fynd i'r afael â'r sefyllfa hon. Bydd y lefel sylweddol o gronfeydd preifat anghyfyngedig wrth gefn yn sicrhau y gall y Llyfrgell barhau â'r gweithgareddau presennol hyd nes y cymerir camau i fynd i'r afael â'r diffyg. Nid oes unrhyw ansicrwydd perthnasol arall ynghylch gallu'r elusen i barhau.



**2. GRANTIAU LLYWODRAETHOL**

	<b>2021/22</b>	<b>2020/21</b>
	<b>£000</b>	<b>£000</b>
<b>Anghyfyngedig</b>		
Grant Cymorth	<b>11,644</b>	10,444
<b>Cyfyngedig</b>		
Cyfalaf - Grant Prynu	<b>305</b>	305
Cyfalaf – Archif Ddarlledu Genedlaethol	<b>1,000</b>	-
Cyfalaf - Cyffredinol	<b>3,390</b>	2,790
Llyfrgelloedd Digidol	<b>450</b>	498
Casgliad y Werin Cymru	<b>121</b>	114
ARCW	<b>218</b>	47
Eraill	<b>31</b>	57
<b>Cyfanswm y grant a dderbyniwyd wrth Lywodraeth Cymru</b>	<b>17,159</b>	14,255

**3. GRANTIAU ERAILL**

	<b>2021/22</b>	<b>2020/21</b>
	<b>£000</b>	<b>£000</b>
<b>Cronfa gyhoeddus gyfyngedig</b>		
Grantiau'r Undeb Ewropeaidd	-	10
Sefydliad Ffilm Prydain	<b>27</b>	21
Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol – Archif Ddarlledu Genedlaethol	<b>587</b>	270
Cronfa Dreftadaeth y Loteri – Save Our Sounds	<b>161</b>	130
Mân Grantiau Eraill	-	13
	<b>775</b>	444
<b>Cronfa gyhoeddus anghyfyngedig</b>		
Cynllun Cadw Swyddi yn sgil y Coronafeirws	<b>40</b>	612
<b>Cyfanswm grantiau eraill</b>	<b>815</b>	1,056

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Gorffennaf 2021 mae'r Llyfrgell wedi hawlio cyfanswm o £40,000 o grant Cynllun Cadw Swyddi yn sgil y Coronafeirws. Roedd angen cau adeilad y Llyfrgell yn unol ag ymateb Llywodraeth Cymru i bandemig COVID-19. Cafodd y Llyfrgell gefnogaeth i'w chais am gyllid o dan y Cynllun gan Lywodraeth Cymru.

**4. INCWM O WEITHGAREDDAU MASNACHU ERAILL**

	2021/22	2020/21
<b>Incwm cyhoeddus anghyfyngedig</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>
Arlwyo	59	2
Incwm o siopau	54	20
Digwyddiadau	10	-
Ymgynghoriaeth a systemau	8	14
Incwm a gynhyrchir o gasgliadau	44	24
Trwyddedu a breindaliadau	90	43
Amrywiol	88	42
<b>Cyfanswm</b>	<b>353</b>	<b>145</b>

**5. DADANSODDIAD O WARIANT**

	Costau Staff	Costau uniongyrchol eraill	Dibrisiant ac Amorteiddiad	<b>CYFAN- SWM 2021/22</b>	CYFAN- SWM 2020/21
	£000	£000	£000	<b>£000</b>	£000
<b>Costau codi arian</b>	373	185	59	<b>617</b>	636
<b>Gwariant Elusennol</b>					
Casgliad	1,784	1,206	293	<b>3,283</b>	3,263
Rhoi Mynediad a Gwybodaeth	3,056	495	352	<b>3,903</b>	3,883
Cyhoeddi a Dehongli	1,512	355	188	<b>2,055</b>	1,656
Cadwraeth a Diogelu	3,180	249	375	<b>3,804</b>	3,901
<b>Llywodraethu</b>	645	832	308	<b>1,785</b>	1,391
	<b>10,550</b>	<b>3,322</b>	<b>1,575</b>	<b>15,447</b>	<b>14,730</b>

**6. INCWM NET/ (GWARIANT) AM Y FLWYDDYN**

	2021/22	2020/21
<b>Nodir hyn ar ôl codi:</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>
Dibrisiant ac amorteiddiad	1,575	1,318
Tâl archwilydd allanol	33	33
Ffioedd archwilio mewnol	12	12
Ffioedd rheoli buddsoddiadau	55	45

## 7. DADANSODDIAD O GOSTAU CYMORTH

I ddechrau, mae'r Llyfrgell yn nodi costau ei swyddogaethau cymorth. Yna mae'n nodi'r costau hynny sy'n ymwneud â'i swyddogaeth lywodraethu. Ar ôl nodi ei gostau llywodraethu, caiff y costau cymorth sy'n weddill eu dosrannu rhwng y gost o godi arian a phedwar gweithgaredd elusennol allweddol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

Caiff cost y cyflog cymorth ei dosrannu yn unol â chostau cyflog pob adran, gyda'r gost cymorth nad yw'n gost cymorth staff yn cael ei dyrannu yn seiliedig ar wariant gweithgaredd.

	Cost cynhyrchu arian	Llywodraethu	Casgliad	Rhoi Mynediad a Gwybodaeth	Cyhoeddi a Dehongli	Cadwraeth a Diogelu	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Cymorth Gweithredol	3	5	15	26	13	26	88
Cyllid	8	43	47	51	27	49	225
Adnoddau Dynol	6	36	39	42	23	40	186
TGCh	36	185	216	249	130	238	1,054
Adeilad	70	588	501	405	228	345	2,137
Arall	2	3	8	12	7	13	45
	<b>125</b>	<b>860</b>	<b>826</b>	<b>785</b>	<b>428</b>	<b>711</b>	<b>3,735</b>

## 8. DADANSODDIAD O GOSTAU STAFF, TÂL A THREULIAU YMDDIRIEDOLION, A CHOST PERSONÉL RHEOLI ALLWEDDOL

### (a) Cyfanswm Costau Staff

	2021/22		2020/21	
	£000	£000	£000	£000
Cyflogau ac Enillion		6,156		6,760
Costau Nawdd Cymdeithasol (gan gynnwys Ardoll Prentisiaethau)		607		619
Costau Pensiwn				
Cost Gwasanaeth Cyfredol	1,657		1,694	
Cyfraniad pensiwn ychwanegol	1,000		400	
Addasiad cost gwasanaeth cyfredol FRS 102	1,130		1,340	
		<b>3,787</b>		<b>3,434</b>
Cyflogau fel y nodir yn nodyn 5		<b>10,550</b>		<b>10,813</b>
Tâl llog cyllid FRS 102 (gweler nodyn 22d)		330		430
<b>Cyfanswm</b>		<b>10,880</b>		<b>11,243</b>

Nid oedd unrhyw gontractwyr asiantaeth na chontractwyr tymor byr yn cael eu cyflogi.

Heblaw am y staff a nodir yn 8c, nid oedd unrhyw aelod o staff yn ennill dros £60,000 (2020/21- Dim).

### **(b) Cynllun Pensiwn**

Mae'r Llyfrgell yn gweithredu cynllun pensiwn wedi'i ariannu sy'n gynllun pensiwn buddion diffiniedig sy'n darparu buddion yn seiliedig ar dâl pensiynadwy terfynol ar oedran ymddeol arferol. Bydd aelodau sy'n gadael y cynllun ac sydd wedi cyfrannu am gyfnod o lai na 2 flynedd yn derbyn ad-daliad o gyfraniadau aelodau. Bydd buddion yn cronni ar raddfa o 1 rhan mewn 80 o'r cyflog pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfranddaliad cywerth â thair blynedd o bensiwn wrth ymddeol. Ar farwolaeth, telir pensiynau i'r priod sydd ar ôl ar raddfa o hanner tâl pensiwn yr aelod. Ar farwolaeth mewn gwasanaeth mae'r cynllun yn talu budd-dal cyfandaliad. Mae ymddeoliad meddygol yn bosibl mewn achos o salwch difrifol.

Cyfanswm cyfraniad y cyflogwr i'r cynllun am y cyfnod oedd £2.7m (2020/21 £2.1m). Delir asedau'r Cynllun ar wahân i rai'r Llyfrgell ac fe'u buddsoddwyd gyda Blackrock. Dangosodd prisiaid actiwaraid 31 Mawrth 2019 fod gwerth asedau'r Cynllun ar y farchnad yn £73.2m a bod gwerth actiwaraid yr asedau hynny yn cyfateb i 100% o werth rhwymedigaethau'r Cynllun. Fodd bynnag, erbyn 31 Mawrth 2021 asesiad dros dro yr Actiwari oedd bod y Cynllun yn debygol o fod wedi disgyn i ddiffyg o £3.5M. Roedd hyn oherwydd nifer o ffactorau, gan gynnwys y dyfarniad cyflog o 1 Ebrill 2019 a oedd wedi cynyddu buddion pensiwn yn sylweddol uwch na'r gyfradd a ganiateir yn y prisiaid llawn, gostyngiad yn y gyfradd ddisgownt a ddefnyddiwyd i gyfrifo buddion pensiwn ac effaith COVID-19 a Brexit ar brisiau asedau. Yn ogystal, roedd effaith tymor hwy ar bris Giltiau mynegrifol sy'n gysylltiedig ag MPM, sy'n debygol o ostwng pan fydd cynlluniau Llywodraeth y DU i roi'r gorau i ddefnyddio MPM a symud i MPD yn lle hynny.

Mae Nodyn 22 yn rhoi rhagor o wybodaeth am gyllid y cynllun pensiwn i gydymffurfio â gofynion FRS 102. Cyhoeddir y datganiad actiwaraid yng Nghyfrifon Blynyddol Cronfa Bensiwn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Yn 2006/07, rhoddodd Llywodraeth Cymru Warrant y Goron sy'n eithrio'r Cynllun o'r Gronfa Diogelu Pensiynau a'r ardoll gysylltiedig.

### **(c) Tâl y Tîm Gweithredol**

Nodir aelodaeth y Tîm Gweithredol ar dudalen 2 (Manylion Gweinyddol a Chyfeirio). Nodir telerau ac amodau'r Tîm Gweithredol yn Adran 6 Adroddiad yr Ymddiriedolion (6.5).

Roedd cyflog y Llyfrgellydd yn 3.38 gwaith cyflog canolrifol (£28,740) y Llyfrgell, 4.18 gwaith y 25ain canradd cyflog canolrif (£23,202) a 2.87 gwaith y 75ain canradd cyflog canolrif (£33,817). Ar gyfer 2020-21, roedd cyflog y Llyfrgellydd yn 3.41 gwaith cyflog canolrif (£28,176) y Llyfrgell. Mae cyflog y Llyfrgellydd wedi cynyddu 0.8% flwyddyn ar ôl blwyddyn, tra bod cyflog canolrifol wedi cynyddu 2%. Mae uwch staff eraill yn derbyn cyflog crynswth, a bennir fel rhan o'r broses o drafod cylch gwaith cyflog holl staff eraill y Llyfrgell.

Cyfrifir gwerth buddion pensiwn fel a ganlyn:

- $(\text{cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn}^* \times 20) + (\text{cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad}^*) - (\text{cyfraniadau a wnaed gan aelod})$

\*ac eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn.

Mae'r lluosydd o 20 wedi'i nodi yn y gofynion datgelu. Mae'r Llyfrgell wedi defnyddio'r ffigwr hwn er mwyn cydymffurfio â'r canllawiau. Nid yw hwn yn swm a dalwyd i unigolyn gan y Llyfrgell yn ystod y flwyddyn; mae'n gyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddion pensiwn. Gall nifer o ffactorau

ddylanwadu ar y ffigurau hyn e.e. newidiadau yng nghyflog person, p'un a yw'n dewis i wneud cyfraniadau ychwanegol i'r cynllun pensiwn o'u cyflog ai peidio, a ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn yn ei gyfanrwydd.

Mae Cynllun Pensiwn Staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn gynllun cyflog terfynol a ariennir. Y pensiynau a'r cyfandaliadau cronodig yw'r symiau a fyddai'n cael eu talu o'r Dyddiad Ymddeol Arferol pe bai'r aelod yn gadael ar y dyddiad perthnasol. Y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (GTCAP) yw gwerth cyfalaf buddion y cynllun pensiwn a aseswyd gan actiwari, gan gynnwys unrhyw Gyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol a throsglwyddiadau mewn gwasanaeth, a gronnwyd gan yr aelod ar adeg benodol. Mae'r gwerthoedd trosglwyddo wedi'u cyfrifo yn unol â'r nodyn canllaw "GN11" a gyhoeddwyd gan Sefydliad yr Actiwariaid a Chyfadran yr Actiwariaid. Y gyfradd ragdybiedig o chwyddiant prisiau oedd 3.1% (2020/21 0.5%).

Gwnaed y taliadau canlynol i aelodau'r Tîm Gweithredol:

	2021/22			2020/21		
	Cyflog Cyfunol	Cynnydd Gwirioneddol (gostyngiad) mewn Buddiannau Pensiwn	Ffigur Cyfanswm Tâl Unigol	Cyflog Cyfunol	Cynnydd Gwirioneddol (gostyngiad) mewn Pensiwn	Ffigur Cyfanswm Tâl Unigol
	£	£	£	£	£	£
Mr P ap Llwyd Prif Weithredwr a Llyfrgellydd	97,013	16,570	113,583	96,213	38,890	135,103
Mr. DH Michael Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd	80,958	9,564	90,522	79,856	33,124	112,980
Dr O Roberts Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd	80,958	16,774	97,732	80,462	64,537	144,999

Datgelir hawliau pensiwn uwch staff y Llyfrgell sy'n gyfrifol am redeg adrannau llunio polisi fel a ganlyn:-

	Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod ar 31/3/21	Cyfanswm y Pensiwn Cronedig ar 31/3/22	Cyfundaliad ar 31/3/22	<b>Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod ar 31/3/22</b>	Cynnydd mewn pensiwn cronedig net o chwyddiant	Cynnydd mewn cyfundaliad net o chwyddiant	Cynnydd (Gostyngiad) mewn gwerth trosglwyddo net o chwyddiant
	£	£	£	£	£	£	£
Mr P ap Llywd Prif Weithredwr a Llyfrgellydd	579,640	24,490	73,470	<b>597,520</b>	690	2,080	(90)
Mr DH Michael Cyfarwydd- wr a Dirprwy Brif Weithred- wr a Llyfrgellydd	675,650	26,850	80,550	<b>708,840</b>	490	1,460	12,240
Dr O Roberts Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd	261,060	12,440	37,320	<b>284,660</b>	790	2,370	15,510

#### (d) Cofrestr Rhoddion

Mae'r Llyfrgell hefyd yn gweithredu cofrestr rhoddion. Nid oes unrhyw eitem a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei hystyried o bwys materol i'w chynnwys yn y datganiadau hyn.

#### (e) Diswyddo

Ni roddwyd cyfrif am unrhyw daliadau diswyddo gwirfoddol yn 2021/22 (2020/21: £307,452).

#### (f) Taliadau i'r Bwrdd

Nid yw'r Bwrdd, ac eithrio'r Llywydd, yn derbyn unrhyw dâl. Yn seiliedig ar adolygiad o sefydliadau tebyg, a chyda chefnogaeth lawn Llywodraeth Cymru, mae'r Bwrdd wedi penderfynu talu swydd y Llywydd. Derbyniodd y Llywydd enillion o £18,535 yn ystod 2021/22, o 13 Medi 2021. Cyfanswm y teithio, cynhaliaeth a lletygarwch a wariwyd gan y Llyfrgell ar gyfer aelodau ei Bwrdd a'i phwyllgorau oedd £536 (2020/21 £261), hawliwyd hyn gan 4 aelod (2020/21: 2 aelod).

## 9. NIFEROEDD STAFF

Y cyfrif misol cyfartalog oedd 219 (2020/21: 239) ac roedd niferoedd cyfartalog y staff sy'n gyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gan y Llyfrgell (gan gynnwys staff achlysurol a rhan-amser) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

<b>Niferoedd Staff</b>	<b>2021/22</b>	<b>2020/21</b>
Masnachu a chodi arian	<b>8.5</b>	10.8
Casgliad	<b>36.2</b>	38.8
Rhoi Mynediad a Gwybodaeth	<b>61.9</b>	56.1
Cyhoeddi a Dehongli	<b>29.8</b>	30.2
Cadwraeth a Diogelu	<b>63.9</b>	66.9
Llywodraethu	<b>12.8</b>	12.9
<b>Cyfanswm</b>	<b>213.1</b>	215.7

## 10. ASEDION DIRIAETHOL AC ANNIRIAETHOL

### A. Asedion Diriaethol

	Tir ac Adeiladau Rhydd- ddaliadol £000	Cyfarpar, Ffitiadau ac Offer £000	Offer cyfrifiadurol £000	Cyfanswm £000
Cost a Phrasiad				
Ar 1 Ebrill 2021	64,107	2,780	4,330	71,217
Ychwanegiadau	1,421	1,366	683	3,470
Gwerthiannau	(21)	(276)	(550)	(847)
Mynegeio	4,797	-	-	4,797
<b>Ar 31 Mawrth 2022</b>	<b>70,304</b>	<b>3,870</b>	<b>4,463</b>	<b>78,637</b>
Dibrisiant				
Ar 1 Ebrill 2021	-	2,016	2,666	4,682
Wedi ei godi am y flwyddyn	891	274	343	1,508
Gwerthiannau	-	(276)	(550)	(826)
Mynegeio	46	-	-	46
<b>Ar 31 Mawrth 2022</b>	<b>937</b>	<b>2,014</b>	<b>2,459</b>	<b>5,410</b>
Gwerth net ar bapur				
<b>Ar 31 Mawrth 2022</b>	<b>69,367</b>	<b>1,856</b>	<b>2,004</b>	<b>73,227</b>
Ar 31 Mawrth 2021	64,107	764	1,664	66,535

Derbyniodd y Llyfrgell ailbrisiad ar 31 Mawrth 2021 ar adeiladau a thir rhydd-ddaliadol y Llyfrgell gan Cooke & Arkwright, Syrfewyr Siartredig. Cynhaliwyd eu prisiad yn unol â Llawlyfr Arfarnu a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Mae adeiladau wedi'u prasio ar sail "gwerth y farchnad agored" neu "gost adnewyddu wedi'i dibrisio" a dangosir tir ar "werth gyda defnydd presennol". Nid oes unrhyw amhariad ar adeiladau wedi'i gofnodi ers y prisiad diwethaf. Mae prisiadau adeiladau rhydd-ddaliadol wedi'u mynegeio yn unol â TPI All-In BCIS.

Y swm wedi'i gario ar dir ac adeiladau rhydd-ddaliadol o dan y confensiwn cost hanesyddol fyddai £45,879k (2020-21: £42,430k).

Defnyddiwyd yr holl asedau diriaethol i hybu gweithgareddau elusennol y Llyfrgell.

## B. Asedion Anniriaethol

	Datblygiad digidol
	£000
Cost	
Ar 1 Ebrill 2021	1,086
Ychwanegiadau	-
Ar 31 Mawrth 2022	<b>1,086</b>
Amorteiddiad	
Ar 1 Ebrill 2021	749
Wedi ei godi am y flwyddyn	67
Ar 31 Mawrth 2022	<b>816</b>
Gwerth net ar bapur	
<b>Ar 31 Mawrth 2022</b>	270
Ar 31 Mawrth 2021	337



**II. BUDDSODDIADAU**

	2021/22	2020/21
	£000	£000
Buddsoddiadau	<b>13,958</b>	12,177
Arian parod a ddelir ar gyfer buddsoddiadau	<b>319</b>	1,453
<b>Cyfanswm buddsoddiadau</b>	<b>14,277</b>	13,630
Gwerth y Farchnad ar 1 Ebrill 2021	<b>12,177</b>	8,730
Caffaeliadau am bris cost	<b>6,686</b>	7,495
Gwarediadau	<b>(5,373)</b>	(6,383)
Elw/(colled) ar warediadau	<b>943</b>	1,064
Elw/(colled) heb eu gwiroddu ar ailbriso	<b>(475)</b>	1,271
<b>Gwerth y Farchnad ar 31 Mawrth 2022</b>	<b>13,958</b>	12,177
<b>Arian parod a ddelir ar gyfer buddsoddiad</b>		
Ar 1 Ebrill 2021	<b>1,453</b>	2,419
(Gostyngiad)/cynnydd	<b>(1,134)</b>	(966)
Ar 31 Mawrth 2022	<b>319</b>	1,453

Cost hanesyddol buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2022 oedd £12.744m (2020/21 £11.508m).

Buddsoddwyd yr asedau fel a ganlyn:-

	Giltiau, bondiau, dyledebau a ffafiaeth	Ymddiriedolaethau uned, soddgyfrannau tramor, eiddo ac asedau amgen	Ecwitiau'r DU a fuddsoddir yn uniongyrchol ar farchnad stoc y DU	Arian Parod	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Portffolio	1,862	9,560	2,536	319	14,277

Wrth benderfynu ar yr adenillion y mae'r Llyfrgell eu hangen o'i phortffolio, a'r cydbwysedd rhwng twf cyfalaf ac incwm, mae'r Llyfrgell yn barod i dderbyn y bydd risgiau ynghlwm wrth fuddsoddi arian uwchlaw gosod arian parod ar adnau yn unig. Mae'r Llyfrgell yn barod i dderbyn y rhain ar yr amod eu bod o fewn lefelau derbyniol.

Y ffordd orau o ddisgrifio archwaeth risg y Llyfrgell yw "cymedrol". Mae'r Llyfrgell yn fodlon derbyn bod yn rhaid cymryd risgiau er mwyn sicrhau enillion uwch, ond bydd yr Ymddiriedolion hefyd yn ystyried sefyllfa'r Llyfrgell fel elusen a ariennir yn bennaf gan grant y llywodraeth ac o ganlyniad y safonau stiwardiaeth a awgrymir. Felly bydd risgiau buddsoddi yn cael eu lleddfu gan:

- **Dyrannu asedau** – strategaeth dyrannu asedau nad yw'n amlygu'r cronfeydd yn ormodol i amrywiannau mewn un sector penodol o'r sbectrwm buddsoddi – h.y. bydd cydbwysedd yn cael ei gyrraedd rhwng swm y bondiau, soddgyfrannau, arian parod a buddsoddiadau eraill gan gynnwys eiddo, a buddsoddiadau'r DU a buddsoddiadau nad ydynt yn dod o'r DU.

- **Ansawdd buddsoddiadau** – bydd y Llyfrgell ond yn ystyried buddsoddiadau o ansawdd uchel megis giltiau a bondiau gradd buddsoddi, neu ecwitiau a chyfundrefnau FTSE 350.

## 12. ASEDAU TREFTADAETH

Caiff pryniannau Asedau Treftadaeth eu cyfalafu ar gost hanesyddol.

**Wedi'i gaffael neu ei roi yn ystod y flwyddyn:**

	Llyfrau	Tanysgrifiad	Lluniau Llawysgrifau & Mapiau	Eraill	Casgliadau Digidol	AGSSC	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Ar 01/04/21	1,996	2,831	12,525	380	4,370	371	<b>22,473</b>
Ychwanegiadau	87	30	180	-	-	5	<b>302</b>
Rhoddion	-	-	158	-	-	-	<b>158</b>
<b>Ar 31/03/22</b>	<b>2,083</b>	<b>2,861</b>	<b>12,863</b>	<b>380</b>	<b>4,370</b>	<b>376</b>	<b>22,933</b>

Nodir ychwanegiadau at asedau treftadaeth ar bris cost, tra bod rhoddion yn cael eu datgan yn ôl gwerth y farchnad.

**Crynodeb ariannol dros Bum mlynedd o ychwanegiadau:**

	2021/22 £'000	2020/21 £000	2019/20 £000	2018/19 £000	2017/18 £000
Llyfrau	87	25	40	51	47
Tanysgrifiadau	30	32	44	55	48
Lluniau, Llawysgrifau a Mapiau	180	157	312	381	148
Ffilm a cherddoriaeth	5	4	5	12	6
Cyfanswm Ychwanegiadau	<b>302</b>	218	401	499	249

Mae gan y Llyfrgell bolisi cytûn ar gyfer caffael, cadw a rheoli asedau treftadaeth. Mae copi o'r polisi y cytunwyd arno ar gael ar gais. Nid yw'r Llyfrgell yn rhoi benthg eitemau i ddefnyddwyr, ond mae casgliadau ar gael yn yr ystafelloedd darllen a'r manau arddangos, yn ogystal ag ar-lein.

Mae gan y Llyfrgell (ers 1911) yr hawl i dderbyn copi o bob llyfr, cylchgrawn, papur newydd a deunydd printiedig arall a gyhoeddir yn y DU ac Iwerddon. Mae'n casglu deunydd o ddi-ddordeb Cymreig a Cheltaidd yn bennaf. Mae ei gasgliadau ar hyn o bryd yn cynnwys:

- **Deunydd printiedig:** yn amrywio o Yny lhyvyr hwn, y llyfr Cymraeg cyntaf (argraffwyd yn 1546) i raglenni o ddigwyddiadau lleol, megis cyngherddau a sioeau.
- **Llawysgrifau ac archifau:** yn cynnwys eitemau amhrisiadwy o'r Oesoedd Canol, megis Llyfr Llandaf, llawysgrif Hengwrt Chaucer a Llyfr Du Caerfyrddin.
- **Mapiau:** Hynafol a modern ac atlasau, mapiau yr Arolwg Ordnans, siartiau môr, mapiau o ffermydd, mapiau degwm ac ystadau, cynlluniau rheilffordd a gwasanaethau cyhoeddus.
- **Lluniau:** yn portreadu pobl a lleoedd yng Nghymru gan gynnwys paentiadau, printiau, engrafiadau a lluniau eraill.
- **Ffotograffau:** gweithiau Mary Dillwyn, John Thomas, D.C. Harries a Geoff Charles.
- **Adnoddau electronig a delweddau digidol:** Yn newydd ac wedi eu creu yn bennaf gan y Llyfrgell mae'r casgliadau yn cynnwys dros 5 miliwn o ddelweddau.

- Mae **Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru** yn gartref i 250,000 o oriau o recordiadau sain, 300,000 awr o ddelweddau symudol, 7 miliwn troedfedd o ffilm, 200,000 o eitemau o archif ffilm a theledu ITV a 15km o archif unigryw.

### I3 DYLEDWYR – yn ddyledus o fewn blwyddyn

	31 Mawrth 2022	31 Mawrth 2021
	£000	£000
Dyledwyr Masnachol	49	42
Ad-daliad TAW yn ddyledus	823	484
Rhagdaliadau	397	621
Dyledwyr Eraill ac Incwm Cronedig	468	326
Incwm Cronedig Cronfeydd Preifat	1,084	1,168
	<b>2,821</b>	<b>2,641</b>

Mae'r incwm cronedig Cronfeydd Preifat yn cynnwys balans o £1,050k sy'n ymwneud â chymynrodd eiddo y bydd y Llyfrgell yn ei dderbyn 2 flynedd ar ôl y grant profiant yn unol â thelerau'r ewyllys. Cyhoeddwyd y grant profiant ar 16 Ebrill 2021 ac felly bydd y Llyfrgell yn derbyn y swm amcangyfrifedig hwn ar neu ar ôl 16 Ebrill 2023.

### I4 (a) CREDYDWYR - Yn ddyledus o fewn blwyddyn

	31 Mawrth 2022	31 Mawrth 2021
	£000	£000
Credydwyr Masnachol	176	74
Croniadau ac incwm gohiriedig	216	776
Croniad tâl gwyliau	242	301
	<b>634</b>	<b>1,151</b>

### I4 (b) CREDYDWYR – Symudiad ar incwm gohiriedig

	31 Mawrth 2022	31 Mawrth 2021
	£000	£000
Incwm gohiriedig a ddygwyd ymlaen	423	245
Rhyddhad o'r flwyddyn flaenorol	(340)	(147)
Incwm wedi'i ohirio yn y flwyddyn gyfredol	0	325
Incwm gohiriedig a gariwyd ymlaen	<b>83</b>	<b>423</b>

Mae incwm gohiriedig yn ymwneud â grantiau a dderbyniwyd.

**15 DADANSODDIAD O GRONFEYDD ELUSENNOL****a. Dadansoddiad o symudiadau mewn cronfeydd - Cyhoeddus**

	<b>Ar 1 Ebrill 2021 £000</b>	<b>Adnoddau Eto i Gyrraedd £000</b>	<b>Adnoddau wedi Ehangu £000</b>	<b>Symudiadau Eraill yn y Flwyddyn £000</b>	<b>Ar 31 Mawrth 2022 £000</b>
<b>CRONFEYDD CYHOEDDUS</b>					
Anghyfyngedig – Pensiwn Cyhoeddus	(27,920)	-	(1,460)	(3,380)	<b>(32,760)</b>
Anghyfyngedig	789	12,037	(11,246)	-	<b>1,580</b>
	<b>(27,131)</b>	<b>12,037</b>	<b>(12,706)</b>	<b>(3,380)</b>	<b>(31,180)</b>
<b>Cyfyngedig: -</b>					
Cyfalaf a datblygiad digidol	52,288	4,390	(1,575)	(101)	<b>55,002</b>
Cronfa Ailbriso Wrth Gefn*	21,370	-	-	4,751	<b>26,121</b>
Cronfeydd cyfyngedig eraill	60	1,565	(1,417)	-	<b>208</b>
Arian grantiau pryniant	9,067	305	-	-	<b>9,372</b>
<b>Cyfanswm cronfa gyhoeddus gyfyngedig</b>	<b>82,785</b>	<b>6,260</b>	<b>(2,992)</b>	<b>4,650</b>	<b>90,703</b>
<b>CYFANSWM CYHOEDDUS</b>	<b>55,654</b>	<b>18,297</b>	<b>(15,698)</b>	<b>1,270</b>	<b>59,523</b>

\* Cyfrifwyd y gronfa ailbriso wrth gefn ar sail ailbriso asedau ers 1999 yn unol â gofyniad FRS 102 i nodi cronfa ailbriso wrth gefn ar wahân. Nid yw ailbrisiadau cyn 1999 wedi'u cynnwys yn y gronfa hon.

Mae symudiadau eraill yn y flwyddyn £1,270k yn cynnwys:

- Ailbriso Asedau Sefydlog Diriaethol, Mynegeio ac amhariad - £4,751k
- Enillion / (colledion) actiwaraid - (£3,380k)

**b. CRONFEYDD PREIFAT (gan gynnwys casgliadau)**

	Anghyfyngedig	Cyfyngedig	Casgliad	<b>Cyfanswm 2021/22</b>	Cyfanswm 2020/21
	£000	£000	£'000	<b>£000</b>	£000
<b>Incwm</b>					
Rhoddion a Chymynroddion	58	1	158	<b>217</b>	1,688
Llog a Dderbyniwyd	228	4	-	<b>232</b>	161
<b>Cyfanswm</b>	<b>286</b>	<b>5</b>	<b>158</b>	<b>449</b>	<b>1,849</b>
<b>Adnoddau a Wariwyd</b>					
Costau codi arian	54	1	-	<b>55</b>	45
Gwariant prosiectau preifat	-	15	-	<b>15</b>	28
(Elw)/colled wrth werthu buddsoddiadau	(926)	(17)	-	<b>(943)</b>	(1,063)
<b>Cyfanswm</b>	<b>(872)</b>	<b>(1)</b>	<b>-</b>	<b>(873)</b>	<b>(990)</b>
<b>Adnoddau Net i Mewn/ (Allan)</b>	<b>1,158</b>	<b>6</b>	<b>158</b>	<b>1,322</b>	<b>2,839</b>
Trosglwyddiadau	110	(25)	16	<b>101</b>	(850)
	1,268	(19)	174	<b>1,423</b>	1,989
Enillion/ (colledion) heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau	(475)	-	-	<b>(475)</b>	1,271
Symudiad net mewn cronfeydd preifat yn ystod y flwyddyn	793	(19)	174	<b>948</b>	3,260
Wedi'i ddwyn ymlaen ar 1 Ebrill	14,822	249	7,479	<b>22,550</b>	19,290
<b>Cariwyd Ymlaen ar 31 Mawrth</b>	<b>15,615</b>	<b>230</b>	<b>7,653</b>	<b>23,498</b>	<b>22,550</b>

Mae cyfanswm y cronfeydd cyfyngedig preifat a chronfeydd casglu yn cynrychioli cyfanswm cronfeydd preifat cyfyngedig o £7,883k.

**16. DADANSODDIAD O ASEDAU NET RHWNG CRONFEYDD**

	Cyhoeddus anghyfyngedig £'000	Cyhoeddus cyfyngedig £'000	Preifat anghyfyngedig £'000	Preifat cyfyngedig £'000	Cyfanswm £'000
Asedion Sefydlog	-	88,793	14,032	7,881	110,706
Arian yn y banc ac mewn llaw	1,255	-	1,583	2	2,840
Asedau / (rhwymedigaethau)	325	1,910	-	-	2,235
cyfredol net eraill					
Credydwyr dros fwy na blwyddyn	(32,760)	-	-	-	(32,760)
<b>Cyfanswm</b>	<b>(31,180)</b>	<b>90,703</b>	<b>15,615</b>	<b>7,883</b>	<b>83,021</b>

**17. CYSONI INCWM NET / (GWARIANT) Â LLIF ARIAN NET O WEITHGAREDDAU GWEITHREDOL**

	2021/22 £000	2020/21 £000
Incwm/ (gwariant) net ar gyfer y cyfnod adrodd (yn unol â'r datganiad o weithgareddau ariannol)	3,942	3,208
Elw ar werthu buddsoddiadau/asedau sefydlog	(943)	(1,063)
Addasiad pensiwn llog FRS 102	330	430
Costau dibrisiant ac amorteiddiad	1,575	1,318
(Cynnydd)/ Gostyngiad mewn stoc	(2)	-
Rhoddion asedau treftadaeth (nad ydynt yn arian parod)	(158)	(453)
(Cynnydd)/ Gostyngiad mewn dyledwyr	(180)	(748)
(Lleihad) / Cynnydd mewn credydwyr	(518)	502
Addasiad cost gwasanaeth cyfredol pensiynau	1,130	1,340
<b>Llif arian net o weithgareddau gweithredu</b>	<b>5,176</b>	<b>4,534</b>

**18. DADANSODDIAD O ARIAN A CHYFWERTH ARIAN**

	2021/22 £000	2020/21 £000
Balansau cyfrifon banc	2,840	1,614
Cyfrifon banc a ddelir o fewn buddsoddiadau	319	1,453
<b>Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar 31 Mawrth</b>	<b>3,159</b>	<b>3,067</b>

**19. TRAFODION GYDA PHARTÏON CYSYLLTIEDIG**

Ystyrir Llywodraeth Cynulliad Cymru yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn derbyniodd y Llyfrgell gyllid gan y Llywodraeth ar ffurf Cymorth Grant, Prynu, Cyfalaf a Grantiau Prosiect fel y datgelir yn nodyn 2.

Datgelir manylion gwariant mewn perthynas â theithio, cynhaliaeth a lletygarwch aelodau bwrdd yn Nodyn 8(f).

Datgelir trafodion a balansau gyda'r cynllun pensiwn yn Nodyn 8.

Mae trafodion partïon cysylltiedig ag aelodau'r Bwrdd ac aelodau'r uwch dîm rheoli wedi'u nodi yn y tabl isod.

		2021/22		2020/21	
Parti Cysylltiedig	Perthynas	Incwm	Dyledwr	Incwm	Dyledwr
		(Gwariant)	(Credydwr)	(Gwariant)	(Credydwr)
		£	£	£	£
Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol	Mae Mr David Michael, Cyfarwyddwr y Llyfrgell yn aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio. Mae Dr Gwenllian Lansdown Davies, Ymddiriedolydd y Llyfrgell yn Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yng Nghymru.	748,173	425,013	399,924	232,682
Prifysgol Caerdydd	Mae Dr Janet Wademan, Ymddiriedolydd y Llyfrgell yn Aelod o'r Cyngor.	(4,770)	0	(3,472)	0
Gŵyl Hanes Cymru i Blant	Mae Ms Eleri Twynog Humphries, Ymddiriedolydd y Llyfrgell (hyd at 30.6.21) yn Gyfarwyddwr.	0	0	(1,200)	0
Prifysgol Aberystwyth	Mae Ms Meri Huws, Ymddiriedolydd y Llyfrgell (hyd at 9.8.21) yn Aelod o'r Cyngor.	1,737 / (11,736)	216	208 / (8,590)	0
Eisteddfod Genedlaethol	Mr Ashok Ahir, Ymddiriedolydd y Llyfrgell yw Llywydd Llys yr Eisteddfod Genedlaethol a Chadeirydd Bwrdd Rheoli'r Eisteddfod	470	0	0	0

Ar 31 Mawrth 2022, roedd gan y Llyfrgell ddyledwyr a chredydwyr cyfunol gyda chyrrff eraill a ariennir gan y Llywodraeth fel a ganlyn:

	<b>Dyledwyr</b>	<b>Credydwyr: yn ddyledus o fewn blwyddyn</b>
	<b>£000</b>	<b>£000</b>
Cyrrff Llywodraeth Ganolog	870	83
Cyrrff Llywodraeth Leol	94	7
Cyrrff Anllywodraethol	1,857	544
Cyfanswm	2,821	634

## 20. OFFERYNNAU ARIANNOL – DATGELU RISG

Nid oes gan y Llyfrgell unrhyw fenthyciadau ac mae'n dibynnu'n bennaf ar grantiau adrannol ar gyfer ei gofynion arian parod ac felly nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Datgelir yr unig adnau materol yn nodyn 11, ac mae'r holl asedau a rhwymedigaethau materol wedi'u rhoi mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg cyfradd llog na risg arian cyfred. Yn 2021/22, roedd £17.159m neu 91% o incwm cyfunol y Llyfrgell yn deillio o Lywodraeth Cymru (2020/21 £14.255m neu 82%). Mae'r balans, £1.617m neu 9% (2020/21 £3.05m neu 18%) yn deillio o incwm o gronfeydd preifat y Llyfrgell (nodyn 15b), o weithgareddau masnachol (nodyn 4) a grantiau gan chyrrff eraill fel y datgelir yn Nodyn 3 i'r cyfrifon hyn.

Mae'r Llyfrgell yn agored i risg marchnad trwy ei buddsoddiadau a rheolir hyn trwy arallgyfeirio portffolio yn ogystal â gosod yr archwaeth risg ac amcanion buddsoddi i'w defnyddio gan Reolwr y Gronfa.

## 21. PRYDLESAU

Ni wnaeth y Llyfrgell unrhyw daliadau pryddles yn ystod y flwyddyn na'r flwyddyn flaenorol.

## 22. COSTAU PENSIWN

Mae'r Llyfrgell yn gweithredu cynllun buddion diffiniedig gyda buddion yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o gyflog pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth. Roedd y prisiad actiwaraid llawn diweddaraf ar 31 Mawrth 2019 ac aseswyd bod y Cynllun wedi'i ariannu'n llawn.

Yn ystod 2021/22, cyfrannodd y Llyfrgell 27.2% o gyflogau pensiynadwy a chyfraniad ychwanegol o £1m, a disgwylir y bydd cyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer 2022/23 yn £1.8 miliwn.

### (a) Datblygu Sefyllfa'r Fantolen Net

	<b>31 Mawrth 2022</b>	<b>31 Mawrth 2021</b>
	<b>£m</b>	<b>£m</b>
Gwerth teg asedau (22b)	<b>87.44</b>	82.45
Gwerth actiwaraid rhwymedigaethau cynllun (22c)	<b>120.20</b>	110.37
Rhwymedigaeth pensiwn wedi'i gydnabod yn y fantolen	<b>(32.76)</b>	(27.92)



**(b) Newidiadau yng ngwerth teg asedau'r cynllun**

	<b>Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022</b>	Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021
	<b>£m</b>	<b>£m</b>
Asedau cynllun ar ddechrau'r flwyddyn	<b>82.45</b>	74.14
Buddion a dalwyd o asedau'r cynllun	<b>(2.43)</b>	(2.24)
Cyfraniadau gan gyflogwyr	<b>2.66</b>	2.09
Cyfraniadau gan aelodau	<b>0.09</b>	0.10
Costau gweinyddol	<b>(0.12)</b>	(0.14)
Incwm llog ar Asedau Cynllun	<b>1.03</b>	1.33
Elw ar asedau'r cynllun sy'n fwy/(llai) na'r gyfradd ddisgownt	<b>3.76</b>	7.17
<b>Asedau cynllun ar ddiwedd y flwyddyn – (22a)</b>	<b>87.44</b>	82.45

**(c) Dadansoddiad o newidiadau yn y Rhwymedigaethau Budd Diffiniedig (RhBD)**

	<b>Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022</b>	Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021
	<b>£m</b>	<b>£m</b>
Rhwymedigaethau cynllun ar ddechrau'r flwyddyn	<b>110.37</b>	98.63
Cost llog ar y RhBD	<b>1.36</b>	1.76
Effaith gwasanaethau gweithwyr yn y cyfnod presennol	<b>3.67</b>	3.29
Cyfraniadau gan aelodau	<b>0.09</b>	0.10
Buddion a dalwyd o asedau'r cynllun	<b>(2.43)</b>	(2.24)
Ailfesur y RhBD/ newid rhagdybiaethau	<b>7.14</b>	8.83
<b>Rhwymedigaethau cynllun ar ddiwedd y flwyddyn – (22a)</b>	<b>120.20</b>	110.37

**(d) Symiau a godwyd ar y DOWA (Cyfanswm Gwariant)**

	<b>Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022</b>	Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021
	<b>£m</b>	<b>£m</b>
Effaith gwasanaethau gweithwyr yn y cyfnod presennol	<b>3.67</b>	3.29
Llog net ar rwymedigaeth / (ased) buddion diffiniedig net	<b>0.33</b>	0.43
Cost y buddion diffiniedig a gydnabyddir yn incwm a gwariant	<b>4.00</b>	3.72
Costau gweinyddol yn ystod y cyfnod	<b>0.12</b>	0.14
<b>Cyfanswm y gost a gydnabyddir yn y DOWA</b>	<b>4.12</b>	3.86

**(e) Enillion/(Colledion) Actiwaraidd a godir ar y DOWA (Enillion/(colledion) cydnabyddedig eraill)**

	<b>Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022</b>	<b>Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021</b>
	<b>£m</b>	<b>£m</b>
Elw ar asedau'r cynllun sy'n (fwy)/llai na'r gyfradd ddisgownt - (22b)	<b>(3.76)</b>	(7.17)
Colled/(ennill) actiwaraidd yn codi yn ystod y cyfnod – (22c)	<b>7.14</b>	8.83
Cyfanswm colled/(ennill) actiwaraidd a gydnabyddir yn y cronfeydd wrth gefn	<b>3.38</b>	1.66

**(f) Cyfanswm cost buddion diffiniedig**

	<b>Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022</b>	<b>Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021</b>
	<b>£m</b>	<b>£m</b>
Cyfanswm y gost a gydnabyddir yn y DOWA - (22(d))	<b>4.12</b>	3.86
Effaith ail-fesur a gydnabyddir yn y cronfeydd wrth gefn (22(e))	<b>3.38</b>	1.66
<b>Cost budd diffiniedig</b>	<b>7.50</b>	5.52

**(g) Cysoni Safle'r Fantolen Net**

	<b>Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022</b>	<b>Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021</b>
	<b>£m</b>	<b>£m</b>
Diffiniad net (rhwymedigaeth) ar ddechrau'r flwyddyn	<b>(27.92)</b>	(24.49)
Effaith gwasanaethau gweithwyr yn y cyfnod presennol (22c)	<b>(3.67)</b>	(3.29)
Llog net ar rwymedigaeth / (ased) buddion diffiniedig net	<b>(0.33)</b>	(0.43)
Effaith ail-fesur a gydnabyddir yn y cronfeydd wrth gefn (22(e))	<b>(3.38)</b>	(1.66)
Cyfraniadau cyflogwr (22b)	<b>2.66</b>	2.09
Costau gweinyddol (22b)	<b>(0.12)</b>	(0.14)
<b>Rhwymedigaethau'r cynllun ar ddiwedd y flwyddyn – (22a)</b>	<b>(32.76)</b>	(27.92)

**(h) Gwerth Asedau ar y Farchnad a Chanran o Gyfanswm Asedau'r Cynllun**

	<b>31 Mawrth 2022</b>		<b>31 Mawrth 2021</b>	
	<b>£m</b>	<b>%</b>	<b>£m</b>	<b>%</b>
Soddgyfrannau	<b>26.50</b>	<b>30.3</b>	20.81	25.2
Bondiau	<b>51.76</b>	<b>59.2</b>	54.71	66.4
Eiddo ac eraill	<b>9.18</b>	<b>10.5</b>	6.93	8.4
<b>Cyfanswm gwerth yr asedau</b>	<b>87.44</b>		<b>82.45</b>	

**(i) Rhagdybiaethau Ariannol**

Mae'r tybiaethau ariannol a wnaed er mwyn cyfrifo gofynion datgelu FRS 102 fel a ganlyn:

	<b>31 Mawrth 2022</b>	31 Mawrth 2021
	<b>%y flwyddyn</b>	%y flwyddyn
Chwyddiant Pris	<b>2.90</b>	2.22
Cyfradd Cynnydd Cyflog	<b>2.90</b>	2.22
Cyfradd cynnydd mewn pensiynau sy'n cael eu talu*	<b>2.90</b>	2.22
Cyfradd ddisgownt**	<b>1.55</b>	1.25

\* yn fwy nag unrhyw elfen o Isafswm Pensiwn Gwarantedig (IPG).

\*\* rhagnodedig gan Drysorlys EM

Mae'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir ar gyfer datgeliadau FRS 102 yn wahanol i'r hyn a ddefnyddiwyd gan yr Actiwari ar gyfer yr asesiad ariannol diweddaraf o'r Cynllun ar 31 Mawrth 2019. Bydd y gofyniad

i ddefnyddio cyfradd ddisgownt y Trysorlys ar gyfer datgeliad FRS 102 yn arwain at asesu sefyllfa ariannol y Cynllun yn wahanol o dan y mesur hwn o gymharu â'r dull a ddefnyddiwyd ym mhrisiad actiwaraid ffurfiol y Cynllun.

**23. YMRWYMIADAU CYFALAF**

Ar ddyddiad y fantolen, mae'r ymrwymadau sy'n weddill fel a ganlyn:

	<b>31 Mawrth 2022</b>	31 Mawrth 2021
	<b>£000</b>	£000
Wedi'i gytundebu - gwaith adeiladu	<b>1,806</b>	210
Wedi'i gytundebu – offer cyfrifiadurol	<b>312</b>	-
	<b>2,118</b>	210

**24. DIGWYDDIADAU ÔL-FANTOLEN**

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau ôl-fantolen sylweddol hyd at y dyddiad yr awdurdodwyd y datganiadau cyfrifyddu gan y Swyddog Cyfrifyddu ar 22 Gorffennaf 2022, a fyddai wedi golygu bod yn rhaid addasu'r cyfrifon.